**CARDIFF COUNCIL**
**CYNGOR CAERDYDD**

# CYFARFOD Y CABINET: 13 GORFFENNAF 2023

---

## CYNIGION AD-DREFNU YSGOLION: DARPARIAETH AR GYFER PLANT A PHOBL IFANC SYDD AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY)

**ADDYSG (Y CYNGHORYDD SARAH MERRY)**

**EITEM AGENDA: 5**

---

***Mae Atodiadau 5 a 6 yr adroddiad hwn wedi'u heithrio rhag cael eu cyhoeddi oherwydd eu bod yn cynnwys y fath wybodaeth a ddisgrifir ym mharagraffau 14 (gwybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol neu fusnes unrhyw berson penodol) a 21 (prawf budd y cyhoedd) o rannau 4 a 5 Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac o dan holl amgylchiadau'r achos, mae budd y cyhoedd o ran cynnal yr eithriad yn gwrthbwyso budd y cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.***

### Rheswm dros yr Adroddiad hwn

1. Er mwyn i'r Cabinet ystyried:

   a. Argymhellion i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ystod o gynigion i ymestyn ac ailalinio'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol.

   b. Nodi'r goblygiadau refeniw a chyfalaf posibl i'r Cyngor sy'n deillio o'r holl gynigion.

   c. Argymhellir, cyn y rhaglen dreigl Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, i fwrw ymlaen â dylunio a chaffael safleoedd Tŷ Glas a Thŷ Derwen, a'r llety dros dro ar safle waith bresennol Ysgol Uwchradd Fitzalan yn gweithio drwy'r Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion.

   d. Nodi'r ymgysylltiad ynghylch adleoliad dros dro posib Ysgol Gynradd Lansdowne i safle presennol Ysgol Uwchradd Fitzalan, cyn Adroddiad Cabinet pellach yn amlinellu'r angen i fynd i'r afael â phroblemau cyflwr ar safle presennol Ysgol Gynradd Lansdowne.  .

   e. Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd gaffael buddiannau rhydd-ddaliadol ar gyfer tir ger safle presennol Ysgol Arbennig Greenhill, yn unol â phrisiad annibynnol, er mwyn caniatáu cyflawni'r Ysgol Arbennig Greenhill newydd, yn amodol ar gymeradwyaeth y Gweinidog am gyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru.

**Cefndir**

2. Mae gan Gaerdydd amrywiaeth o ddarpariaeth yn y sir sy'n darparu lleoedd arbenigol mewn ysgolion arbennig, canolfannau adnoddau arbenigol a dosbarthiadau llesiant sy'n gweithredu fel rhan o ysgolion prif ffrwd, Uned Cyfeirio Disgyblion, a darpariaeth Addysgu Cymunedol. Gellir gweld map o'r ddarpariaeth ysgolion arbennig a'r canolfannau adnoddau arbenigol presennol yn Atodiad 1.

3. Mae Band B Rhaglen Fuddsoddi y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy), Rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif gynt, yn cynnwys prosiectau Anghenion Dysgu Ychwanegol allweddol gan gynnwys Campws Cymunedol y Tyllgoed, Ysgol Arbennig The Court ac Ysgol Arbennig Greenhill. Mae'r Cabinet hefyd wedi ystyried adroddiadau mewn ymateb i'r galw cynyddol am leoliadau arbenigol yn ei gyfarfodydd ar 15 Gorffennaf 2021 ac 14 Hydref 2021 ac awdurdodi swyddogion i ymgynghori ar ystod o gynigion i ehangu'r ddarpariaeth gynradd ac uwchradd ar gyfer dysgwyr oedran cynradd ac uwchradd ag Anghenion Dysgu Cymhleth, Cyflwr Sbectrwm Awtistiaeth ac Anghenion Iechyd Emosiynol a Lles.

4. Bydd y prosiectau hyn, ynghyd â phrosiectau Band B, yn galluogi cynnydd graddol yn lleoliadau arbenigol dynodedig Caerdydd i:

   - 660 o leoedd i ddysgwyr oed cynradd ag Anghenion Dysgu Cymhleth a/neu Gyflwr Sbectrwm Awtistiaeth.
   - 781 o leoliadau ar gyfer dysgwyr oed uwchradd ac ôl-16 ag Anghenion Dysgu Cymhleth a/neu Gyflwr Sbectrwm Awtistiaeth.
   - 120 o leoliadau ar gyfer dysgwyr oed cynradd sydd ag Anghenion Iechyd Emosiynol a Lles.
   - 194 o leoliadau ar gyfer dysgwyr oed uwchradd ac ôl-16 gydag Anghenion Iechyd Emosiynol a Lles.

5. Cyflwynwyd y lleoedd ychwanegol o fewn yr egwyddorion strategol a amlinellir isod:

   - ysgolion a lleoliadau sy'n cyflwyno cwricwlwm arloesol gyda dulliau gweithredu ysgol gyfan i addysgu a dysgu.
   - gwasanaethau arbenigol rhagorol i wella gallu ysgolion a lleoliadau eraill i gynnwys plant a phobl ifanc ag ystod o ADY.
   - Trefniadau effeithiol ar gyfer adnabod cynnar ac ymyrraeth sy'n seiliedig ar ymchwil i atal ADY rhag dwysáu lle bynnag y bo modd.
   - Lefelau uchel o hygyrchedd ym mhob adeilad ysgol, gyda digon o ofod hyblyg ym mhob ysgol sy'n briodol i oedran a'r cyfnod dysgu.
   - Partneriaethau cryf i sicrhau ymateb cyfannol, cydweithredol i ADY plentyn neu berson ifanc (gan gynnwys iechyd, gwasanaethau plant ac oedolion, darparwyr blynyddoedd cynnar ac Addysg Bellach).
   - Cynllunio pontio amlasiantaethol effeithiol ar bob cam, o'r blynyddoedd cynnar hyd at gyrchfannau cynradd, uwchradd, ôl-16 ac oedolion, i gefnogi derbyn yn ddi-oed.

6. Wrth i'r cynigion cymeradwy gael eu gweithredu, bydd hyn yn lliniaru costau lleoliadau mewn lleoliadau nas cynhelir neu rai annibynnol. Mae'r galw

cynyddol yn sgil y pandemig wedi golygu bod angen defnyddio ystod o atebion dros dro gan gynnwys ymestyn y ddarpariaeth bresennol drwy ddefnyddio llety dros dro yn ogystal â chaffael nifer fwy o leoedd mewn lleoliadau annibynnol a rhai nas cynhelir lleol. Mae'r ddarpariaeth annibynnol berthnasol yn gweithredu ar gapasiti llawn, neu'n agos at lawn, ac mae'r Cyngor nawr yn ceisio ysgogi'r farchnad i gynnig darpariaeth newydd/estynedig. Fodd bynnag, mae llawer o'r lleoliadau hyn yn gostus ac yn aml yn cynnwys teithiau hirach o'r cartref i'r ysgol i ddysgwyr, gyda chostau trafnidiaeth uwch cysylltiedig.

7. Yn y tymor byr, mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn gweithio gyda darparwyr preifat i ddarparu nifer fwy o leoedd, ynghyd â datblygu lleoedd ychwanegol drwy gynnig darpariaeth Addysgu Cymunedol well.

8. Yn y tymor hwy, nod y Cyngor yw sicrhau dull effeithiol a chynhwysol o gefnogi digonolrwydd Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n cynnwys yr egwyddorion canlynol:

   - dull cynhwysol sy'n canolbwyntio ar y plentyn o adnabod a diwallu anghenion dysgu ychwanegol, yn unol â Deddf ADY a'r Tribiwnlys Addysg
   - gwell lledaeniad o leoedd arbenigol ar draws y ddinas, gan gynnwys lle bo’n berthnasol, leoliadau lleol llai eu maint
   - CAA ym mhob clwstwr ar gyfer anghenion Iechyd Emosiynol a Lles, ac anghenion Dysgu Cymhleth ac Awtistiaeth.
   - Datblygu ymhellach yr hyfforddiant a’r cymorth i ysgolion gan wasanaethau arbenigol ac allgymorth
   - lleihau costau lleoliad fesul disgybl.
   - lleihau costau cludiant fesul disgybl.
   - Cefnogi teithio llesol.

**Materion**

**Cyd-destun ledled dinas**

9. O ganlyniad i gwymp parhaus yn y gyfradd enedigaethau o 2017/18 ymlaen, a newidiadau i batrymau mudo, rhagamcennir y bydd y niferoedd derbyn ledled y ddinas i addysg gynradd ym mis Medi 2021 i fis Medi 2025 yn lleihau'n sylweddol. Dangosir y rhain mewn data a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a setiau data cofrestru meddygon teulu mwyaf diweddar y GIG.

10. Gan fod cyfraddau genedigaethau yng Nghaerdydd, ac yn genedlaethol, wedi dilyn cylch tymor hir o tua 25 mlynedd, rhagwelir felly na fyddai'r niferoedd derbyn yn dychwelyd i lefelau uchel tan ar ôl 2030. Mae'r cylch cyfatebol o boblogaethau disgyblion yn amlwg o fewn addysg uwchradd, gydag oedi o saith mlynedd.

11. Roedd cyfanswm y nifer ar y gofrestr yn ysgolion cynradd Caerdydd yn 2021/22 wedi gostwng ychydig o tua 1% ers 2017/18 ond bydd hyn yn gostwng yn sylweddol yn y blynyddoedd i ddod. Mae'r cyfanswm ar y gofrestr mewn ysgolion uwchradd yn 2021/22 wedi cynyddu 14% yn yr un

cyfnod a bydd yn cynyddu ymhellach erbyn 2023/24, gan aros ar lefel yr un mor uchel tan o leiaf 2027/28.

12. Mae sefyllfa ADY ledled y ddinas yn dangos bod nifer y disgyblion ag anghenion difrifol a chymhleth, sydd angen lle mewn ysgol arbennig neu ganolfan adnoddau arbenigol wedi parhau i dyfu oherwydd nifer o ffactorau gan gynnwys twf poblogaeth disgyblion mewn rhai cyfnodau oedran, cyfraddau goroesi gwell i blant a anwyd ag anableddau sylweddol, gan arwain at fwy o achosion o anableddau difrifol a chymhleth, mwy o achosion a nodi anghenion penodol a nifer uwch o blant a phobl ifanc ag anghenion iechyd emosiynol a lles.

13. Er y byddai'r ffactorau uchod yn berthnasol yn fras i'r cyd-destun cenedlaethol, credir bod y gyfran yng Nghaerdydd yn uwch na'r cyfartaledd oherwydd ffactorau fel, ond nid yn unig oherwydd agosrwydd at Ysbyty Athrofaol Cymru.

14. Fel ym mhob Awdurdod Lleol, mae'r effaith tymor canol i'r hirdymor ar ddysgwyr cyfnod clo Covid-19 yn ansicr. Mae ysgolion Caerdydd wedi adrodd pryderon yn ymwneud â datblygiad ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol dysgwyr sydd ar hyn o bryd yn cael eu cefnogi mewn darpariaeth prif ffrwd a nodir bod cynnydd pellach wedi bod yn nifer y plant sy'n cyflwyno anghenion iechyd emosiynol a lles cymhleth sydd wedi golygu bod angen cymorth priodol/lleoliadau mwy arbenigol. Mae gwaharddiad parhaol a diffyg presenoldeb ar sail gorbryder wedi cynyddu'n sylweddol ers 2019/20. Er y gallai hyn fod yn effaith pandemig tymor byr, gallai hyn fod yn rhan o duedd tymor hwy newydd.

15. Mae'r Cyngor yn ymchwilio i gyfleoedd i wella cyfleusterau ar gyfer atal ac ymyrryd yn gynnar mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, gan gynnwys mannau hyblyg i ganiatáu ar gyfer dosbarthiadau llai ac ar gyfer sefydlu trefniadau anogaeth a gwahardd mewnol.

16. Mae llawer o ysgolion a gynhelir yng Nghaerdydd yn dangos arfer rhagorol o ran diwallu anghenion yn fewnol trwy ystod o strategaethau gan gynnwys Dulliau Adferol; ELSA; Ffynnu / Ymarfer wedi'i Lywio gan Drawma; gwaharddiad mewnol; dosbarthiadau meithrin; dosbarthiadau llai ar gyfer disgyblion mwy agored i niwed. Un ffactor allweddol mewn ysgolion lle mae hyn gryfaf ac yn fwyaf effeithiol yw cael y gofod/adeiladau hyblyg a'r adnoddau sydd eu hangen.

**Cyfnod cynradd - Darpariaeth Iechyd Emosiynol a Llesiant**

17. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i egwyddorion cynhwysiant ac mae'n cydnabod y ceir y gefnogaeth orau i'r mwyafrif o blant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol yn eu hysgolion prif ffrwd lleol. Felly, mae'r Cyngor yn ceisio hyrwyddo a galluogi strategaethau atal ac ymyrryd yn gynnar i leihau'r risg o leoliadau yn methu mewn ysgol brif ffrwd a/neu'r angen am leoliad arbenigol.

18. Ar hyn o bryd, mae 48 o leoliadau dros dro ar gyfer dysgwyr oed cynradd sydd ag Anghenion Iechyd Emosiynol a Lles mewn pum Dosbarth Llesiant

sy'n cael eu cynnal mewn ysgolion prif ffrwd ledled y ddinas, wedi'u lleoli yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed, Ysgol Gynradd Lakeside, Ysgol Gynradd Springwood, Ysgol Uwchradd Fitzalan ac Ysgol Gymraeg Pwll Coch. Mae dysgwyr yn mynychu Dosbarthiadau Llesiant am ymyrraeth therapiwtig â therfyn amser i gefnogi parhau i gael eu cynnwys yn eu hysgol brif ffrwd leol ar ddiwedd y cyfnod. Mae rhai dysgwyr na ellir diwallu eu hanghenion yn eu hysgol brif ffrwd leol yn trosglwyddo i ddarpariaeth arbenigol fel Ysgol Arbennig The Court.

19. Yn hanesyddol, mae'r lleoliadau mewn Dosbarth Llesiant wedi bod am gyfnod a bennwyd ymlaen llaw o 6 mis neu flwyddyn. Mae nifer cynyddol o blant sydd angen lleoliad yn cyflwyno gydag anghenion sy'n gofyn am ymyrraeth hirach, sy'n awgrymu y dylai'r cyngor fabwysiadu dull mwy hyblyg wrth symud ymlaen, gan gynnwys yr opsiwn i'r cyfnod amser mewn lleoliad gael ei bennu gan gynnydd plant unigol.

20. Mae lleoedd ysgol arbennig ar gyfer dysgwyr oed cynradd ag Anghenion Iechyd Emosiynol a Lles hefyd yn cael eu darparu yn Ysgol Arbennig The Court.

21. Nododd cynigion a ystyriwyd gan y Cabinet ym mis Gorffennaf 2021 y galw cynyddol a ragwelir am leoedd oedran cynradd i blant sy'n byw yng Nghaerdydd ag Anghenion Iechyd Emosiynol a Lles, i 119-131 o leoedd erbyn 2025/26.

22. Er mwyn mynd i'r afael â'r angen am leoedd ychwanegol, cymeradwyodd y Cyngor gynigion yn 2022 i ehangu Ysgol Arbennig The Court o 42 lle i 72 o leoedd ar draws dwy safle, yn weithredol o fis Medi 2025. Bydd hyn yn ychwanegu capasiti i'r cyfnod cynradd, gan fynd i'r afael ag anghenion digonolrwydd, a bydd yn disodli adeilad presennol sy'n dirywio gyda dwy ysgol bwrpasol newydd â 36 lle yr un yn nwyrain a gorllewin y ddinas.

23. Ar weithredu cynigion Ysgol the Court, mae gan y Cyngor ddarpariaeth yn y sir ar gyfer 120 o ddysgwyr, ac mae'r Cyngor yn datblygu cynigion i ehangu'r lleoedd hyn ymhellach mewn cymunedau eraill. Bydd hyn yn gwella dosbarthiad lleoedd arbenigol ledled y ddinas ymhellach, gan gefnogi nifer fwy o ddysgwyr Caerdydd i gael mynediad i addysg yn eu cymuned leol.

24. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu a chynyddu'r ddarpariaeth ymhellach ar gyfer dysgwyr oed cynradd sydd ag Anghenion Iechyd Emosiynol a Lles, mewn darpariaeth lesiant dros dro sy'n cefnogi dysgwyr i barhau mewn ysgolion prif ffrwd, ac mewn darpariaeth arbenigol pan fo lleoliadau parhaol yn briodol.

**Y Cyfnod cynradd - Darpariaeth Anghenion Dysgu Cymhleth a/neu Gyflwr Sbectrwm Awtistiaeth**

25. Darperir lleoedd a gynhelir mewn ysgolion arbennig ar gyfer disgyblion oed cynradd ag Anghenion Dysgu Cymhleth a/neu Gyflwr Sbectrwm Awtistiaeth yn Ysgol Arbennig Meadowbank, Ysgol Arbennig Riverbank, Ysgol Arbennig Hollies ac Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn. Mae gan y Cyngor hefyd wyth

Canolfan Adnoddau Arbenigol sy'n cefnogi'r anghenion hyn mewn ysgolion cynradd prif ffrwd ledled y ddinas, a chan gynyddu i naw yn 2023/2024.

26. Nododd cynigion a ystyriwyd gan y Cabinet ym mis Gorffennaf 2021 y galw cynyddol a ragwelir am leoedd oedran cynradd i blant sy'n byw yng Nghaerdydd sydd ag Anghenion Dysgu Cymhleth a/neu Gyflwr Sbectrwm Awtistiaeth, i 547-602 o leoedd erbyn 2025/26.

27. Er mwyn mynd i'r afael â'r angen am leoedd ychwanegol, mae'r Cyngor wedi cymeradwyo cynigion yn 2022 i ehangu'r ddarpariaeth hon 182 o lefydd, gydag ehangu'n cael ei gyflwyno'n raddol o fis Medi 2022 i fis Medi 2023. Erbyn mis Medi 2026, bydd gweithredu'r cynigion hyn ynghyd â newidiadau cymeradwy eraill yn cynyddu nifer y lleoedd i'r dysgwyr hyn i 660 o leoedd.

28. Bydd yr ychwanegiad hwn o gapasiti i'r cyfnod cynradd yn mynd i'r afael ag anghenion digonolrwydd drwy ehangu'r ddarpariaeth ysgolion arbennig bresennol yn Ysgol Arbennig Meadowbank, Ysgol Arbennig Riverbank, Ysgol Arbennig Hollies ac Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn a CAAau a sefydlu darpariaeth newydd yn Ysgol Gynradd Moorland. Bydd y newidiadau hefyd yn gwella dosbarthiad lleoedd arbenigol ledled y ddinas, gan gefnogi nifer fwy o ddysgwyr Caerdydd i gael mynediad i addysg yn eu cymuned leol.

29. Bydd y galw am leoedd yn cael ei adolygu'n barhaus a chynigion i ymateb i unrhyw newidiadau yn cael eu cyflwyno yn ôl y gofyn.

**Cyfnod uwchradd - Darpariaeth Iechyd Emosiynol a Lles**

30. Darperir lleoedd mewn ysgolion ar gyfer disgyblion oed uwchradd ag Anghenion Iechyd Emosiynol a Lles yn Ysgol Arbennig Greenhill ac mewn Canolfannau Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd. Bydd ail Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain yn derbyn dysgwyr yn 2023/2024.

31. Mae'r Cyngor hefyd yn darparu lleoedd i ddysgwyr ag Anghenion Iechyd Emosiynol a Lles yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion a thrwy'r Rhaglen Addysgu Cymunedol. Mae yna hefyd addysgu mewn Ysbytai ar gyfer cymorth cleifion mewnol ac fel rhan o raglen Goleudy i bobl ifanc sydd wedi dioddef trallod emosiynol.

32. Fodd bynnag, mae anghenion cynyddol a brys sy'n gofyn am ddarpariaeth ychwanegol ar draws y ddinas er mwyn i ddysgwyr allu cyrchu gwasanaethau yn agosach i'w cartrefi ac i liniaru costau trafnidiaeth.

33. Nododd cynigion a ystyriwyd gan y Cabinet ym mis Hydref 2021 y rhagamcanwyd i'r galw cynyddol am leoedd uwchradd ac ôl-16 i ddysgwyr sy'n byw yng Nghaerdydd gydag Anghenion Iechyd Emosiynol a Lles, gyrraedd 380-419 o leoedd erbyn 2025/26.

34. Ar adeg pan fo'r boblogaeth oedran uwchradd yn cynyddu, mae'r Cyngor wedi sicrhau bod yr angen am leoedd ar gyfer dysgwyr uwchradd ac ôl-16 ag Anghenion Iechyd Emosiynol a Lles wedi cael eu diwallu drwy gyllido lleoedd yn y sector annibynnol. Fodd bynnag, mae gallu'r sector annibynnol

i ymateb ymhellach i'r galw cynyddol yn gyfyngedig. Mae'r Cyngor felly'n blaenoriaethu datblygu cynigion i ehangu darpariaeth a gynhelir y Cyngor a fyddai'n cefnogi nifer fwy o ddysgwyr Caerdydd i gael addysg yn y ddinas ac yn eu cymuned leol a byddai'n cael effaith gadarnhaol ar ddosbarthiad adnoddau ariannol y Cyngor i ysgolion ledled y ddinas.

35. Er mwyn mynd i'r afael â'r angen am leoedd ychwanegol, cymeradwyodd y Cyngor gynigion yn 2022 i sefydlu Canolfannau Adnoddau Arbenigol o 20 lle yr un yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd ac yn YSgol Uwchradd y Dwyrain, yn weithredol o fis Medi 2022 a Medi 2023 yn y drefn honno, gan gynyddu capasiti i 194 o leoedd mewn darpariaeth ysgolion a'r Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD).

36. Mae'r Cyngor hefyd wedi ymgynghori ar gynigion o fewn rhaglen fuddsoddi Band B i ehangu Ysgol Arbennig Greenhill yn 2021/22 a oedd yn dangos cefnogaeth rhanddeiliaid i ddatblygu ac ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr uwchradd ac ôl-16 ag Anghenion Iechyd Emosiynol a Lles. Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor yn datblygu darpariaeth UCD ymhellach i ddarparu lleoedd i ddysgwyr Cyfnod Allweddol 3 (11-14 oed) ochr yn ochr â gwasanaeth tiwtora gwell i ddarparu cynnig eang ar gyfer yr anghenion sy'n cael eu cyflwyno.

**Cyfnod uwchradd - Darpariaeth Anghenion Dysgu Cymhleth a/neu Gyflwr Sbectrwm Awtistiaeth**

37. Darperir lleoedd a gynhelir mewn ysgolion arbennig ar gyfer disgyblion oed uwchradd ag Anghenion Dysgu Cymhleth a/neu Gyflwr Sbectrwm Awtistiaeth yn Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn ac Ysgol Uwchradd Woodlands. Mae gan y Cyngor hefyd chwe Chanolfan Adnoddau Arbenigol sy'n cefnogi'r anghenion hyn mewn ysgolion cynradd prif ffrwd ledled y ddinas, fydd yn cynyddu i saith yn 2023/2024.

38. Nododd cynigion a ystyriwyd gan y Cabinet ym mis Hydref 2021 y galw cynyddol a ragwelir am leoedd oedran uwchradd i ddysgwyr sy'n byw yng Nghaerdydd sydd ag Anghenion Dysgu Cymhleth a/neu Gyflwr Sbectrwm Awtistiaeth, i 629-692 o leoedd erbyn 2025/26.

39. Ym mis Chwefror 2022, cafodd 560 o ddysgwyr uwchradd ac ôl-16 sy'n byw yng Nghaerdydd ag Anghenion Dysgu Cymhleth a/neu Gyflwr Sbectrwm Awtistiaeth eu rhoi mewn darpariaeth arbenigol, gan gynnwys 276 mewn ysgolion arbennig a 284 mewn Canolfannau Adnoddau Arbenigol mewn ysgolion prif ffrwd.

40. Er mwyn mynd i'r afael â'r angen a ragwelir am leoedd ychwanegol, mae'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r cynigion i ehangu Ysgol Uwchradd Woodlands o 140 lle i 240 o leoedd ar Gampws Dysgu Tyllgoed. Bydd hyn yn ychwanegu capasiti i'r cam uwchradd, gan ddiwallu anghenion digonolrwydd, a bydd yn disodli adeilad presennol sy'n dirywio. Mae'r Cyngor hefyd wedi cymeradwyo cynigion yn 2022 i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Cymhleth a/neu Gyflwr Sbectrwm Awtistiaeth 179 o leoedd, yn Ysgol Uwchradd Cantonian, Ysgol Uwchradd Llanisien, Canolfan Marion, Ysgol Arbennig Tŷ Gwyn, Ysgol Uwchradd yr

Eglwys Newydd, Ysgol Uwchradd Willows ac Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf. Mae'r ehangu hwn yn cael ei weithredu'n raddol fesul cam o fis Medi 2022. Erbyn mis Medi 2026, bydd gweithredu'r cynigion hyn ynghyd â newidiadau cymeradwy eraill yn cynyddu nifer y dysgwyr hyn i 781 o leoedd.

41. Mae nifer y lleoedd presennol a rhai sydd wedi'u cynllunio yn ddigonol i ateb y galw am leoedd anghenion dysgu cymhleth yn y cyfnod uwchradd tan 2025/26. Bydd y galw am leoedd yn cael ei adolygu'n barhaus a chynigion i ymateb i unrhyw newidiadau yn cael eu cyflwyno yn ôl y gofyn.

**Lleoliadau mewn ysgolion annibynnol, awdurdodau lleol cyfagos neu ddarpariaeth UCD**

42. Mae'r Cyngor yn ariannu nifer o leoedd mewn ysgolion arbennig a gynhelir gan Awdurdodau Lleol eraill, neu mewn ysgolion annibynnol, i sicrhau bod digon o leoedd i ddiwallu anghenion dysgwyr. Ym mis Mai 2023, mae 189 o ddysgwyr mewn ysgolion annibynnol a rhai nas cynhelir.

43. Ar hyn o bryd mae nifer uwch o leoedd yn cael eu prynu men darpariaeth y Tu Allan i'r Sir ac yn y sector annibynnol nag yn y blynyddoedd blaenorol. Disgwylir y bydd hyn yn parhau i fod yn ofynnol ac o bosibl yn tyfu ychydig nes bod y prosiectau Band B yn cael eu cyflawni a bod cynigion pellach yn cael eu cyflwyno.

44. Fel y nodwyd uchod, mae'r Cyngor eisoes yn bwrw ymlaen â darpariaeth barhaol ychwanegol mewn nifer o'i ysgolion arbennig a'i ganolfannau adnoddau arbenigol. Felly, mae angen rhai o'r lleoliadau annibynnol / Tu allan i'r Sir tra bod digon o ddarpariaeth barhaol ychwanegol yn cael ei datblygu, gan gynnwys yn Nhŷ Gwyn, Greenhill a'r Uned Cyfeirio Disgyblion. Caiff dysgwyr eraill eu rhoi mewn darpariaeth o'r fath i gyrchu lleoliadau arbenigol amlasiantaethol, neu os ydynt yn blant sy'n derbyn gofal sy’n cael eu lleoli Tu allan i'r Sir, neu os ydynt yn blant sy'n derbyn gofal mewn llety preswyl.

45. Gan fod Awdurdodau Lleol eraill hefyd yn rheoli lefel o angen cynyddol am leoliadau arbenigol, a bod llai o leoedd ganddynt i’w cynnig i awdurdodau cyfagos, mae'r opsiynau ar gyfer caffael lleoedd y tu allan i'r Sir neu gyda darparwyr annibynnol wedi dod yn fwy heriol. Er mwyn sicrhau bod digon o leoedd parhaus ar gael i ateb y galw presennol a bod dyletswyddau statudol yn cael eu cyflawni, mae'r Cyngor wedi ymgysylltu'n rhagweithiol â'r sector annibynnol i gynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael drwy ehangu'r ddarpariaeth hon. Wrth i gynigion cymeradwy'r Cyngor gael eu cyflawni, bydd hyn yn lliniaru’r twf mewn costau lleoliadau y Tu Allan i'r Sir neu ddarpariaeth annibynnol, a bydd cynigion ychwanegol yn ceisio gwrthbwyso ymhellach, ac yn y blynyddoedd i ddod, leihau'r costau i ddysgwyr sy'n byw yng Nghaerdydd.

**Uned Atgyfeirio Disgyblion (UCD)**

46. Mae Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) yn fath o ysgol a sefydlwyd gan Awdurdod Lleol sydd â dyletswydd i ddarparu lle addas i blant a phobl ifanc,

oherwydd salwch, gwaharddiad neu fel arall, na fyddent efallai yn derbyn addysg o'r fath mewn ysgol brif ffrwd.

47. Ar hyn o bryd mae UCD Caerdydd wedi'i leoli yn Heol Cefn, Mynachdy ac mae'n darparu ar gyfer 90 o ddysgwyr 14 – 16 oed gydag ystod o anghenion Iechyd Emosiynol a Lles.

48. Mae'r UCD yn darparu lle i 48 o ddysgwyr gydag ymddygiad heriol yn ei ddarpariaeth yn Bryn y Deryn, a lleoedd pellach ar gyfer 42 o ddysgwyr sydd â gorbryder / diffyg presenoldeb yn yr ysgol, yn ei darpariaeth yng Nghanolfan Carnegie, ar y safle a rennir ar Heol Cefn.

49. Mae pwrpas yr UCD yn ddeublyg; yn gyntaf, sicrhau bod gofynion statudol i ddarparu addysg yn sgil cynnydd mewn gwaharddiadau o'r ysgol a chymhlethdod anghenion dysgwyr yn cael eu bodloni, ac yn ail i gynnig darpariaeth i bobl ifanc â gorbryder a heriau cysylltiedig sy'n golygu eu bod ar hyn o bryd yn ei chael hi'n anodd mynychu ysgol brif ffrwd. Bwriedir i'r ddarpariaeth fod yn lleoliad dros dro sy'n hwyluso dechrau o’r newydd neu ailintegreiddio i ddarpariaeth brif ffrwd, tra hefyd yn cynnig lleoedd i'r rhai sydd mewn perygl o gael eu gwahardd a/neu ymddieithrio a thrwy hynny leihau gwaharddiadau a gwella presenoldeb.

50. Mae Bryn y Deryn yn darparu lleoedd i ddysgwyr Cyfnod Allweddol 4 (14 – 16 oed) o bob rhan o Gaerdydd sydd ag anghenion iechyd emosiynol a lles. Mae'r ganolfan yn cynnig cwricwlwm cytbwys sy'n cael ei deilwra'n benodol i ddiwallu anghenion pob disgybl unigol. Mae dysgwyr yn dilyn cwricwlwm gan gynnwys TGAU Mathemateg, Saesneg, Astudiaethau'r Cyfryngau, Llwyddo (Sweet), Celf a Ffotograffiaeth Ddigidol; ynghyd ag amrywiaeth o gymwysterau BTEC a chymwysterau amgen.

51. Mae bron pob disgybl yn mynychu Bryn y Deryn am dri diwrnod yr wythnos a phrosiect cynhwysiant a hyfforddiant yn y gwaith am y ddau ddiwrnod sy'n weddill.

52. Mae Canolfan Carnegie yn darparu ar gyfer dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 (14 - 16 oed) o bob rhan o Gaerdydd gydag amrywiaeth o anghenion na all y rhan fwyaf o ysgolion prif ffrwd eu diwallu.

53. Mae'r ganolfan yn gweithio ar yr egwyddor o gamau bach, gan wneud i ddysgwyr deimlo'n gyfforddus, ac yna gweithio tuag at sefyllfa lle gallant gyrraedd eu potensial llawn.

54. Mae'r tîm o staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu yn cynnig ystod eang o arbenigedd a chefnogaeth gyda'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mynychu am 20 awr yr wythnos. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hefyd wedi'u cofrestru mewn ysgolion prif ffrwd eraill.

55. Mae'r Ganolfan yn cynnig ystod o gymwysterau TGAU, BTEC Llwyddo a Gwersi LIBF mewn Addysg Ariannol Lefel 1 / 2.

56. Mae gan bob dysgwr gefnogaeth barhaus gan Gyrfa Cymru a staff i sicrhau pontio llwyddiannus ar ôl 16. Er mwyn cefnogi'r gwaith hwn ceir cysylltiadau

cryf hefyd gyda nifer o golegau lleol a darparwyr hyfforddiant eraill yn yr ardal.

**Darpariaeth Addysgu Cymunedol**

57. Ar hyn o bryd mae Tîm Addysgu Cymunedol y Cyngor yn gweithredu o ganolfan hamdden sydd ar agor i'r cyhoedd ac o fannau cyhoeddus fel llyfrgelloedd. Ar hyn o bryd mae 70 o bobl ifanc yn defnyddio'r gwasanaeth, pob un am bum awr yr wythnos. Mae gan y bobl ifanc hyn anghenion dysgu sy'n gysylltiedig ag iechyd neu amgylchiadau eithriadol lle mae darpariaeth prif ffrwd, arbenigol neu hyd yn oed grŵp Addysg Heblaw yn yr Ysgol AHY) yn anaddas ar eu cyfer.

58. Mae angen rhaglenni dysgu pwrpasol ar y dysgwyr hyn sy'n cynnwys addysg orfodol 1-1 gan Athrawon Cymunedol, gyda mentora, mynediad at brofiadau ehangach ac ymgysylltiad teuluol yn cael eu darparu gan y tîm Sgiliau a Chymorth.

59. Mae'r Cyngor yn cynyddu'r ddarpariaeth i 15 awr a hefyd yn cysylltu â gwasanaethau eraill, pan fydd pobl ifanc yn barod i ymgysylltu ag addysg anffurfiol neu ailintegreiddio i addysg ffurfiol. Mae ehangu'r tîm Addysgu Cymunedol, cynnydd mewn oriau, a gofynion diogelu'r bobl ifanc y mae'n eu cefnogi, yn gofyn am ganolfan benodol ar gyfer y ddarpariaeth.

**Digonolrwydd lleoedd**

60. Mae monitro parhaus y Cyngor o anghenion unigol dysgwyr, a sut mae anghenion pob dysgwr yn esblygu, yn caniatáu i dueddiadau data gael eu nodi sydd wedyn yn llywio'r broses o gynllunio lleoedd a chymorth i ddysgwyr. Ers i'r Cabinet ystyried cynigion i ehangu'r ddarpariaeth yn 2021/22, diweddarwyd tueddiadau o ran nifer y plant sydd angen lleoliadau arbenigol naill ai o fewn darpariaeth ysgolion arbennig a gynhelir Caerdydd a Chanolfannau Adnoddau Arbenigol, neu o fewn darpariaeth amgen gan gynnwys lleoliadau mewn ysgolion annibynnol, Awdurdodau Lleol cyfagos neu ddarpariaeth UCD.

61. Wrth gymharu nifer y dysgwyr sy'n defnyddio darpariaeth arbenigol gyda phoblogaeth gyffredinol yr ysgolion yn ystod y pum mlynedd diwethaf, gellir nodi cynnydd o flwyddyn i flwyddyn. Yn 2017/18, gosodwyd 1,405 o ddysgwyr yn y categorïau uchod o ddarpariaeth, sef 2.9% o gyfanswm poblogaeth ddisgyblion ysgolion Caerdydd. Tyfodd hyn i 1,507 yn 2019/20, cynnydd ymylol i 3.0% o gyfanswm y boblogaeth ddisgyblion.

62. Roedd yr adroddiad a ystyriwyd gan Gabinet y Cyngor ym mis Hydref 2019 yn cynnwys amcanestyniadau ar dueddiadau a ystyriai anghenion a aseswyd, lleoliadau a thueddiadau hyd at 2019/20, cyn pandemig Covid-19. Atodwyd manylion y methodolegau ar gyfer amcanestyniadau ysgolion, a’r ffactorau y mae'n rhaid i ddadansoddi data eu hystyried wrth ragweld y nifer sy'n manteisio ar leoedd arbenigol, i Adroddiad y Cabinet.

63. Mae'r cynnydd mewn lleoliadau arbenigol yn 2021/22 a 2022/23, i 3.2% a 3.4% o’r boblogaeth ddisgyblion yn y drefn honno, yn dangos tuedd newydd

dros gyfnod cymharol fyr sy'n cyd-fynd â'r cyfnod wedi'r cyfnod clo. Mae ysgolion Caerdydd hefyd wedi adrodd pryderon ynghylch datblygiad ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol dysgwyr sydd ar hyn o bryd yn cael eu cefnogi yn y ddarpariaeth brif ffrwd; Fodd bynnag, mae'r effaith tymor canolig a hirdymor ar ddysgwyr yn ansicr.

64. Byddai parhad tuedd yr amcanestyniad newydd hwn, gan gynnwys y data diweddaraf o 2021/22 a 2022/23, ychydig yn uwch na'r ystod o amcanestyniadau sy'n llywio cynigion diweddar - 43 yn fwy o ddisgyblion yn y cyfnod hwn sy'n dod i ben yn 2025/26. Byddai tuedd y twf a nodwyd o tua 2.9% yn 2017/18 i oddeutu 3.4% yn 2022/23, pe bai'n parhau, yn cyrraedd tua 3.8% (1,915 o ddisgyblion) erbyn 2027/28.

65. Mae'r tueddiadau diweddar yn atgyfnerthu'r angen am gynigion i ehangu'r ddarpariaeth arbenigol, ond ni ellir modelu tueddiadau twf o'r fath i barhau am gyfnod amhenodol. Er na ragwelir y byddai angen cyfran mor uchel o ddarpariaeth arbenigol, mae angen cynigion i ehangu'r ddarpariaeth arbenigol ymhellach y tu hwnt i'r capasiti presennol a'r capasiti a gynlluniwyd, yn y byrdymor, y tymor canol a’r hirdymor. Mae atodiad 2 yn nodi'r twf yn nifer y dysgwyr sy'n defnyddio’r ddarpariaeth arbenigol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a'r amcanestyniad tuedd uchod ar gyfer twf yn y dyfodol yn y gofyniad am leoliadau arbenigol.

66. Dechreuwyd gweithredu’r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) newydd i Gymru ym mis Medi 2021, gyda disgwyl i bob plentyn a pherson ifanc ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) symud i'r system ADY erbyn mis Awst 2025. Mae'r Cyngor yn monitro anghenion disgyblion a'u lleoliadau yn barhaus drwy Gynlluniau Datblygu Unigol.

67. Mae gwaith pellach ar fireinio data o Gynlluniau Datblygu Unigol yn parhau a bydd yn atgyfnerthu ac yn adeiladu ar y wybodaeth bresennol ac yn cefnogi gwell dealltwriaeth o effeithiau tymor hir y pandemig. Bydd hyn yn parhau i lywio cynllunio lleoedd yn y dyfodol, yn y tymor byr i'r tymor hir, ac ar gyfer lleoliadau dros dro neu barhaol.

68. Mae'r Cyngor wedi blaenoriaethu datblygu cynigion i sicrhau cydbwysedd priodol yn nifer a math y lleoedd arbenigol ar gyfer dysgwyr Caerdydd, gan gynnwys carlamu ymlaen â chynigion sy'n defnyddio seilwaith presennol, gydag addasiadau perthnasol, cyn adleoli i safleoedd parhaol.

## Cynlluniau a gynigir

69. Mae’r Cyngor wedi cymryd, a bydd yn dal i gymryd, ystod o gamau i wella darpariaeth mewn o fewn adeiladau a niferoedd dynodedig presennol lle bo’n bosibl. Nid oes angen ymgynghori ffurfiol ar gamau o’r fath oni bai eu bod yn gofyn am ‘addasiad rheoledig’.

70. Mae’r cynlluniau trefniadaeth ysgolion arfaethedig a nodir isod yn gofyn am ‘addasiadau rheoledig’. Dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, gall Awdurdod Lleol gyflwyno cynigion ar gyfer addasiadau rheoledig, a chyn cyhoeddi’r cynigion mae gofyn iddo gynnal ymgynghoriad

ar y cynigion hynny yn unol ag adran 48 y Ddeddf a’r Cod Trefniadaeth Ysgolion.

71. Rhaid i unrhyw gynigion fod yn ddibynnol ar ymgynghori llawn a theg ac mae’n rhaid i’r Cabinet fod wedi ystyried yr ymatebion yn llawn cyn gwneud penderfyniad terfynol.

72. Mae'r Cyngor wedi nodi nifer o gynigion a fyddai'n darparu cynnydd graddol yn nifer y lleoedd Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Iechyd Emosiynol a Lles ac a fyddai'n:

- cefnogi cwricwlwm holistig, galwedigaethol a therapiwtig, gan gynnwys sgiliau bywyd.
- darparu cymysgedd o leoedd asesu drws troi yn CA3 a lleoliadau tymor hir.
- lleihau'r ddibyniaeth ar leoedd ysgolion annibynnol, ac o bosibl lleoliadau y tu allan i'r sir.
- sicrhau y gallu i gefnogi plant sy'n derbyn gofal yn ysgolion Caerdydd, yn unol â'r strategaeth 'Agosach i Adref'.
- sefydlu ymagweddau sy'n gynhwysol o ran rhywedd i'r holl ddarpariaeth arbenigol yng Nghaerdydd.
- cynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr oed cynradd fanteisio ar ddarpariaeth arbenigol ar safle ysgol brif ffrwd.
- datblygu ymhellach y gefnogaeth i ddisgyblion gynnal cysylltiadau ag addysg brif ffrwd a dychwelyd iddi lle bo hynny'n bosibl.
- creu cysylltiadau cryf rhwng ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig i gefnogi lleoliadau deuol a phrofiad dysgu cyfoethocach.
- gwella'r ystod o gyfleoedd ôl-16, gan gynnwys llwybrau â chymorth at gyflogaeth.

73. Mae’r newidiadau a gynigir fel a ganlyn:

- sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 8 lle newydd ar gyfer iechyd emosiynol a lles yn Ysgol Gynradd Baden Powell o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.
- sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 8 lle ar gyfer iechyd emosiynol a lles yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol. Byddai hyn yn disodli'r Dosbarth Lles presennol.
- Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 16 lle newydd ar gyfer iechyd emosiynol a lles yn Ysgol Gynradd Herbert Thompson o fis Medi 2024, o fewn adeiladau presennol.
- sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 16 lle ar gyfer iechyd emosiynol a lles yn Ysgol Gynradd Lakeside o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol. Byddai hyn yn disodli'r Dosbarth Lles presennol.
- Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 8 lle ar gyfer iechyd emosiynol a lles yn Ysgol Gynradd Springwood o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol. Byddai hyn yn disodli'r Dosbarth Lles presennol.

- sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 8 lle ar gyfer iechyd emosiynol a lles yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch o fis Medi 2024 yn yr adeiladau presennol. Byddai hyn yn disodli'r Dosbarth Lles presennol.
- Cynyddu capasiti Ysgol Arbennig Greenhill o 64 i 96 o leoedd. Byddai'r ysgol fwy ei maint yn gweithredu fel ysgol sengl i ddysgwyr 11-18 oed ar draws dau safle gan gynnwys y safle presennol yn Heol Brynglas, Rhiwbeina, a rhan o safle newydd yn Rhodfa Tŷ Glas, Llanisien o fis Medi 2026.
- sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 20 lle ar gyfer dysgwyr ag Anghenion iechyd emosiynol a lles yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.

74. Nid yw ehangu'r Uned Cyfeirio Disgyblion a throsglwyddo'r Tîm Addysgu Cymunedol a nodir isod yn ddarostyngedig i ofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion:

- cynyddu capasiti'r Uned Cyfeirio Disgyblion i 180 o lefydd, o fis Medi 2023. Byddai'r UCD mwy ei maint yn gweithredu fel un sefydliad ar gyfer dysgwyr 11-18 oed ar draws tair safle, gan gynnwys:

    - y safle presennol ar gyfer hyd at 90 o ddysgwyr ar Heol Cefn.
    - 48 o ddysgwyr mewn adeilad newydd ar y safle lle mae Ysgol Uwchradd Willows ar hyn o bryd o fis Medi 2027.
    - 42 o ddysgwyr mewn darpariaeth wedi'i hadnewyddu/ymestyn yn Tŷ Derwen, Llaneirwg.

- am gyfnod dros dro lleoli’r ddarpariaeth Uned Cyfeirio Disgyblion estynedig i’r safle lle mae Ysgol Uwchradd Fitzalan ar hyn o bryd, o fis Medi 2023.
- am gyfnod dros dro lleoli Ysgol Gynradd Lansdowne ar safle presennol Ysgol Uwchradd Fitzalan oherwydd yr angen am waith cyflwr brys o fis Ionawr 2024.
- trosglwyddo'r Tîm Addysgu Cymunedol i hen Ganolfan Addysg Oedolion Severn o fis Medi 2023.

75. Byddai'r cynigion hyn yn darparu:

- 64 o leoedd arbenigol Iechyd Emosiynol a Lles oedran Cynradd parhaol ychwanegol.
- 52 o leoedd arbenigol Iechyd Emosiynol a Lles oedran Uwchradd parhaol ychwanegol.
- 90 o leoedd Uned Cyfeirio Disgyblion arbenigol Iechyd Emosiynol a Lles oed Uwchradd

76. Byddai'r newidiadau arfaethedig yn y cyfnod oedran cynradd yn cynyddu nifer gyffredinol y lleoliadau ar gyfer iechyd emosiynol a lles o 90 lle i 114 lle o fis Medi 2024, gan gynyddu i 144 ym mis Medi 2025 yn dilyn ehangu Ysgol Arbennig The Court. Byddai trosi'r Dosbarthiadau Lles presennol i statws CAA, yn dod â'r model yn unol â'r dosbarthiadau newydd a gynigir yn Ysgol Gynradd Baden Powell, Ysgol Gymraeg Pwll Coch ac Ysgol

Gynradd Herbert Thompson. Byddai pob Canolfan Adnoddau Arbenigol Lles yn darparu lleoedd ymyrraeth gynnar cyfyngedig o ran amser, gyda lle ar gyfer cyfnod y lleoliad yn amrywio yn unol ag anghenion a chynnydd y plentyn.

77. Ni fyddai’r ddarpariaeth Dosbarth Lles yn Ysgol Uwchradd Fitzalan yn newid.

78. Mae'r Cyngor hefyd wedi nodi nifer o gynigion a fyddai'n darparu cynnydd graddol yn nifer y Lleoedd Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Cymhleth ac a fyddai'n:

- cefnogi cwricwlwm holistig, galwedigaethol a therapiwtig, gan gynnwys sgiliau bywyd.
- lleihau'r ddibyniaeth ar leoedd ysgolion annibynnol, ac o bosibl lleoliadau y tu allan i'r sir.
- sicrhau y gallu i gefnogi plant sy'n derbyn gofal yn ysgolion Caerdydd, yn unol â'r strategaeth 'Agosach i Adref'.
- cynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr oed cynradd gael mynediad at ddarpariaeth arbenigol ar safle ysgol brif ffrwd yn eu cymuned leol neu'n agos ati.

79. Mae’r newidiadau a gynigir fel a ganlyn:

- sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 20 lle ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth / Cyflwr Sbectrwm Awtistiaeth yn Ysgol Gynradd Coed Glas o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.
- sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 20 lle ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth/ Cyflwr Sbectrwm Awtistiaeth yn Ysgol Gynradd Greenway o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.
- sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 20 lle ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth / Cyflwr Sbectrwm Awtistiaeth yn Ysgol Gynradd Severn o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.

80. Byddai'r cynigion hyn yn darparu 60 o leoedd arbenigol Anghenion Dysgu Cymhleth / Cyflwr Sbectrwm Awtistiaeth oed Cynradd parhaol ychwanegol.

81. Mae'r ystod o gynigion yn cynrychioli atebion strategol a chyfannol sy'n canolbwyntio ar gefnogi disgyblion mewn ysgolion prif ffrwd lle bo hynny'n briodol, ac ar dwf cynaliadwy nifer o ddarpariaethau arbenigol sefydledig a llwyddiannus sy'n lleihau dibyniaeth y Cyngor ar leoliadau y tu allan i'r sir a rhai annibynnol yn y blynyddoedd i ddod.

82. Byddai'r cynnydd cyffredinol yn y ddarpariaeth, i gyd-fynd yn agosach â'r angen a ragwelir am leoedd, yn galluogi nifer fwy o ddysgwyr i gael eu lleoli mewn darpariaeth sydd o fewn neu'n agosach at eu cymuned leol, i leihau amseroedd teithio i'r dysgwyr hynny, ac yn ei dro yn lleihau'r gost gyfartalog teithio i’r ysgol fesul dysgwr.

83. Mae tabl cryno o ddarpariaeth arbenigol gyfredol ac arfaethedig ynghlwm yn Atodiad 3. Mae map o ddarpariaeth arbenigol gyfredol ac arfaethedig ynghlwm yn Atodiad 4.

**Cyfnod cynradd - Iechyd Emosiynol a Lles**

**Ysgol Gynradd Baden Powell**

84. Mae Ysgol Gynradd Baden Powell yn ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion 3 – 11 oed. Mae’r ysgol wedi ei lleoli yn Heol Muirton, Tremorfa.

85. Er mwyn ateb y galw cynyddol am leoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol cynradd i ddysgwyr ag anghenion iechyd emosiynol a lles cynigir:

- sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 8 lle ar gyfer dysgwyr ag anghenion iechyd emosiynol a lles yn Ysgol Gynradd Baden Powell o 2024.
- Byddai lleoliadau'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac ailintegreiddio, gyda lle i gyfnod y lleoliad amrywio yn dibynnu ar anghenion a chynnydd plant unigol.

86. Cynigir y byddai'r ganolfan newydd yn cael ei lletya yn adeiladau presennol yr ysgol.

**Ysgol Gynradd y Tyllgoed**

87. Mae Ysgol Gynradd y Tyllgoed yn ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion 3 – 11 oed. Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn Wellwright Road, Y Tyllgoed. Mae'r ysgol yn cynnal Dosbarth Llesiant 8 lle ar gyfer dysgwyr oed cynradd sydd ag anghenion iechyd emosiynol a lles sydd angen cymorth ychwanegol am gyfnod cyfyngedig. Mae dysgwyr sy'n mynychu'r dosbarthiadau lles yn cael eu cofrestru mewn ysgol arall ac yn dychwelyd i'w hysgol gartref ar ddiwedd y cyfnod.

88. Bydd safle'r ysgol yn cynnwys 36 o leoedd yn Ysgol Arbennig The Court o fis Medi 2025, mewn adeilad newydd. Byddai cydleoli'r CAA arfaethedig ar yr un safle â'r Ysgol The Court newydd yn caniatáu i staff rannu arfer gorau, cryfhau perthnasoedd ag ysgolion arbennig, caniatáu ar gyfer dysgu proffesiynol ac ar gyfer gweithio amlasiantaethol.

89. Er mwyn ateb y galw cynyddol am leoedd mewn canolfannau adnoddau arbennig cynradd i ddysgwyr ag anghenion iechyd emosiynol a lles cynigir:

- newid statws y dosbarth lles a sefydlu canolfan adnoddau arbenigol 8 lle ar gyfer dysgwyr ag anghenion iechyd emosiynol a lles yn Ysgol Gynradd Tyllgoed o 2024
- Byddai lleoliadau'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac ailintegreiddio, gyda lle i gyfnod y lleoliad amrywio yn dibynnu ar anghenion a chynnydd plant unigol

90. Byddai'r ganolfan adnoddau arbenigol yn adeiladu ar arbenigedd ac arfer da'r dosbarth lles presennol.

91. Cynigir y byddai'r ganolfan newydd yn cael ei lletya yn adeiladau presennol yr ysgol.

**Ysgol Gynradd Herbert Thompson**

92. Mae Ysgol Gynradd Herbert Thompson yn ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion 3 – 11 oed. Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn Plymouthwood Road, Trelái.

93. Er mwyn ateb y galw cynyddol am leoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol cynradd i ddysgwyr ag anghenion iechyd emosiynol a lles cynigir:

- sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 16 lle ar gyfer dysgwyr ag anghenion iechyd emosiynol aa lles yn Ysgol Gynradd Herbert Thompson o 2024.
- Byddai lleoliadau'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac ailintegreiddio, gyda lle i gyfnod y lleoliad amrywio yn dibynnu ar anghenion a chynnydd plant unigol

94. Cynigir y byddai'r ganolfan newydd yn cael ei lletya yn adeiladau presennol yr ysgol.

**Ysgol Gynradd Lakeside**

95. Mae Ysgol Gynradd Lakeside yn ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion 3 – 11 oed. Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn Ffordd Ontario, Lakeside. Mae'r ysgol yn cynnal Dosbarth Lles 16 lle ar gyfer dysgwyr oed cynradd sydd ag anghenion iechyd emosiynol a lles sydd angen cymorth ychwanegol am gyfnod cyfyngedig. Mae dysgwyr sy'n mynychu'r dosbarthiadau lles yn cael eu cofrestru mewn ysgol arall ac yn dychwelyd i'w hysgol gartref ar ddiwedd y cyfnod.

96. Er mwyn ateb y galw cynyddol am leoedd mewn canolfannau adnoddau arbennig cynradd i ddysgwyr ag anghenion iechyd emosiynol a lles cynigir:

- newid statws y dosbarth lles a sefydlu canolfan adnoddau arbenigol 16 lle ar gyfer dysgwyr ag anghenion iechyd emosiynol a lles yn Ysgol Gynradd Lakeside o 2024
- Byddai lleoliadau'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac ailintegreiddio, gyda lle i gyfnod y lleoliad amrywio yn dibynnu ar anghenion a chynnydd plant unigol.

97. Byddai'r ganolfan adnoddau arbenigol yn adeiladu ar arbenigedd ac arfer da'r dosbarth lles presennol.

98. Cynigir y byddai'r ganolfan newydd yn cael ei lletya yn adeiladau presennol yr ysgol.

**Ysgol Gynradd Springwood**

99. Mae Ysgol Gynradd Springwood yn ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion 3 – 11 oed. Lleolir yr ysgol yn Pennsylvania, Llanedern. Mae'r ysgol yn cynnal Dosbarth Llesiant 8 lle ar gyfer dysgwyr oed cynradd sydd ag anghenion iechyd emosiynol a lles sydd angen cymorth ychwanegol am gyfnod cyfyngedig. Mae dysgwyr sy'n mynychu'r dosbarthiadau lles yn cael eu cofrestru mewn ysgol arall ac yn dychwelyd i'w hysgol gartref ar ddiwedd y cyfnod.

100. Er mwyn ateb y galw cynyddol am leoedd mewn canolfannau adnoddau arbennig cynradd i ddysgwyr ag anghenion iechyd emosiynol a lles cynigir:

    - newid statws y dosbarth lles a sefydlu canolfan adnoddau arbenigol 8 lle ar gyfer dysgwyr ag anghenion iechyd emosiynol a lles yn Ysgol Gynradd Springwood o 2024
    - Byddai lleoliadau'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac ailintegreiddio, gyda lle i gyfnod y lleoliad amrywio yn dibynnu ar anghenion a chynnydd plant unigol.

101. Byddai'r ganolfan adnoddau arbenigol yn adeiladu ar arbenigedd ac arfer da'r dosbarth lles presennol.

102. Cynigir y byddai'r ganolfan newydd yn cael ei lletya yn adeiladau presennol yr ysgol.

**Ysgol Gymraeg Pwll Coch**

103. Mae Ysgol Gymraeg Pwll Coch yn ysgol gynradd gymunedol Gymraeg i ddisgyblion 3 -11 oed. Mae'r ysgol yn cynnal Canolfan Adnoddau Arbenigol cynradd ar gyfer plant 4 – 11 oed gydag anghenion dysgu cymhleth a chyflwr sbectrwm awtistiaeth yn y sector cyfrwng Cymraeg. Mae'r ysgol hefyd yn cynnal Dosbarth Llesiant 8 lle ar gyfer dysgwyr oed cynradd sydd ag anghenion iechyd emosiynol a lles sydd angen cymorth ychwanegol am gyfnod cyfyngedig. Mae dysgwyr sy'n mynychu'r dosbarthiadau lles yn cael eu cofrestru mewn ysgol arall ac yn dychwelyd i'w hysgol gartref ar ddiwedd y cyfnod.

104. Er mwyn ateb y galw cynyddol am leoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol cynradd Cymraeg i ddysgwyr ag anghenion iechyd emosiynol a lles bwriedir:

    - sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 8 lle ar gyfer dysgwyr ag anghenion iechyd emosiynol a lles yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch o 2024.
    - Byddai lleoliadau'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac ailintegreiddio, gyda lle i gyfnod y lleoliad amrywio yn dibynnu ar anghenion a chynnydd plant unigol.

105. Cynigir y byddai'r ganolfan newydd yn cael ei lletya yn adeiladau presennol yr ysgol.

**Cyfnod uwchradd - Iechyd Emosiynol a Lles**

**Ysgol Arbennig Greenhill**

106. Mae Ysgol Arbennig Greenhill yn ysgol arbennig 64 lle ar gyfer dysgwyr 11 – 19 oed ledled y ddinas. Mae gan bob un o'r plant anghenion Iechyd Emosiynol a Lles sylweddol (dynodiad CYBLD yw Anawsterau Ymddygiadol Emosiynol a Chymdeithasol – AYECh). Mae 68 o ddysgwyr wedi eu cofrestru ar hyn o bryd.

107. Ymgynghorodd y Cyngor ar gynigion i ymestyn ystod oedran yr ysgol o 11-16 i 11-19, ac i gynyddu capasiti'r ysgol o 56 lle i 64 lle, yng ngwanwyn 2018 a phenderfynwyd ar y cynigion gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2018.

108. Mae gan bob disgybl sydd wedi cofrestru yn Ysgol Greenhill ddatganiad o anghenion addysgol arbennig neu Gynllun Datblygu Unigol. Mae'r broses asesu statudol ar gyfer y bobl ifanc hyn wedi nodi na ellir diwallu eu hanghenion dysgu ychwanegol mewn amgylchedd llai arbenigol.

109. Diben Ysgol Arbennig Greenhill yw darparu amgylchedd dysgu a chwricwlwm arbenigol, lle gall dysgwyr gyflawni eu potensial.

110. Er mwyn ateb y galw cynyddol am leoedd mewn ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau arbenigol i ddysgwyr oed uwchradd ag anghenion iechyd emosiynol a lles, awdurdododd y Cabinet yn ei gyfarfod ar 14 Hydref 2021 i swyddogion awdurdodedig ymgynghori ar gynigion i:

    - gynyddu capasiti Ysgol Greenhill o 64 i 160 o leoedd. Byddai'r ysgol yn trosglwyddo i adeiladau newydd ar draws dau safle, sef Tŷ Glas yn Llanisien a’r Dutch Garden Centre, gydag 80 o leoedd ar y ddwy safle o fis Medi 2025.

111. Yn ei gyfarfod ar 10 Mawrth 2022, ystyriodd y Cabinet adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad ar y newidiadau a gynigiwyd ar gyfer Ysgol Greenhill.

112. Cydnabyddwyd bod nifer o faterion wedi'u codi yn yr ymgynghoriad ynghylch y safleoedd arfaethedig, gan gynnwys pryderon ynghylch diogelwch, yr angen i gynnal ethos un ysgol gefnogol a chynnig darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg.

113. Cynigiwyd felly bod gwaith dichonoldeb pellach yn cael ei wneud o ran priodoldeb y safleoedd arfaethedig ar gyfer lletya darpariaeth iechyd emosiynol a lles i ddysgwyr 11 – 19 oed.

114. Roedd hyn i gynnwys ystyried:

    - agosrwydd safle’r Dutch Garden Centre i’r M4/cyffordd y draffordd a rheoli risgiau cysylltiedig â hyn e.e., lliniaru ar y safleoedd, rheoli a goruchwylio disgyblion.
    - mynediad trafnidiaeth gyhoeddus i safle’r Dutch Garden Centre.

- hyd a lled y tir ar gael ar safle Tŷ Glas ar gyfer ysgolion Greenhill ac opsiynau cynllun y safle.

115. Mae gwaith dichonoldeb pellach wedi'i wneud gyda nifer o safleoedd yn cael eu hasesu yn erbyn ystod ehangach o feini prawf a oedd yn cynnwys:

- diogelu.
- perchnogaeth ac argaeledd safleoedd yn ystod yr amserlenni gofynnol.
- llwybrau teithio llesol ar gyfer sgiliau bywyd a rhanddeiliaid.
- hygyrchedd.
- ecoleg.

116. Gan ystyried y ffactorau hyn a rheoli a chefnogi disgyblion, mae'r Cyngor yn cynnig cynyddu capasiti Ysgol Arbennig Greenhill i 96 o leoedd, o fis Medi 2026.

117. Byddai'r ysgol fwy ei maint yn gweithredu fel ysgol sengl ar gyfer dysgwyr 11-18 oed mewn adeiladau newydd ar draws dau safle gan gynnwys y safle presennol yn Heol Brynglas, Rhiwbeina, a rhan o safle newydd yn Rhodfa Tŷ Glas, Llanisien.

118. Er mwyn caniatáu i'r adeilad newydd ar y safle presennol yn Heol Brynglas gael ei ddatblygu, cynigir bod Greenhill yn gweithredu ar draws dau safle o fis Medi 2025 gyda hyd at 48 o ddysgwyr yn y ddarpariaeth adeilad newydd ar ran o safle Tŷ Glas ac adeiladau newydd ar ran o safle presennol Ysgol Arbennig Greenhill ar safle Heol Brynglas a fyddai'n darparu ar gyfer hyd at 48 o ddysgwyr ar ôl ei gwblhau yn 2026 / blwyddyn ysgol 2027.

119. Dros dro byddai hyd at 42 o ddysgwyr wedi'u lleoli yn y ddarpariaeth arbenigol newydd yn Oak House, Llaneirwg, tra bod safle presennol Ysgol Greenhill yn cael ei ddatblygu a hyd nes y bydd safle newydd Willows yn cael ei gwblhau ar gyfer yr Uned Cyfeirio Disgyblion.

120. Ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu, byddai Ysgol Arbennig Greenhill yn gadael y cyfleusterau yn Oak House ac yn cynnig 96 o leoedd ar draws y ddau safle yn Heol Brynglas, Rhiwbeina a rhan o safle Tŷ Glas, Llanisien.

121. Byddai’r newidiadau yn cefnogi'r ysgol i ddatblygu ei chwricwlwm ymhellach a byddai'n ei galluogi i drawsnewid cyfleoedd dysgu ar gyfer mwy o ddysgwyr mwyaf agored i niwed Caerdydd mewn amgylchedd dysgu arbenigol wedi ei adeiladu’n bwrpasol sy’n addas i’r 21ain ganrif.

**Uned Cyfeirio Disgyblion**

122. Mae'r Cyngor yn cynnig cynyddu capasiti'r Uned Cyfeirio Disgyblion i 180 o lefydd, o fis Medi 2023.

123. Byddai'r UCD mwy o faint yn gweithredu fel un sefydliad ar gyfer dysgwyr 11-18 oed ar draws dau safle gan gynnwys y safle presennol yn Heol Cefn, ac am gyfnod dros dro ar y safle sy'n cael ei feddiannu ar hyn o bryd gan Ysgol Uwchradd Fitzalan, o fis Medi 2023 (mae Ysgol Uwchradd Fitzalan yn trosglwyddo i adeiladau newydd ar Heol Lecwydd o fis Medi 2023).

124. Amrediad oedran presennol yr Uned Cyfeirio Disgyblion yw 14-16 (Cyfnod Allweddol 4) yn unig. Byddai'r cyfleusterau ychwanegol ar safle Fitzalan yn darparu ar gyfer disgyblion 11-14 oed (Cyfnod Allweddol 3) a byddent yn efelychu model y ddarpariaeth ar y safle Mynachdy presennol, gan ddarparu ar gyfer dau fath o angen. Y 90 lle ychwanegol i ddarparu ar gyfer 42 o ddysgwyr gydag ymddygiad heriol a 48 o ddysgwyr â gorbryder/diffyg presenoldeb yn yr ysgol.

125. Nid oes unrhyw newidiadau yn cael eu cynnig i'r ddarpariaeth ar safle Heol Cefn.

126. Byddai cynnydd cyffredinol o ran lleoedd UCD, felly, yn golygu lle i 90 o ddysgwyr ag ymddygiad heriol a 90 o ddysgwyr â gorbryder / diffyg presenoldeb yn yr ysgol.

127. Yn y lle cyntaf, bydd yr UCD yn cael ei letya o fewn ardal hunangynhwysol ar safle Fitzalan gyda gwaith yn mynd rhagddo i ddarparu ystafelloedd dosbarth, neuadd, campfa, a chyfleusterau arlwyo addas. Bydd gofod awyr agored i'r cefn hefyd ar gael gyda maes parcio staff ar flaen y safle. Bydd RheoliYstadau ar y safle drwy'r adeg i fonitro cyflwr yr adeilad a sicrhau bod cyfleusterau'n parhau i fod yn addas i'r diben.

128. Ar ddiwedd y cyfnod dros dro ar safle Fitzalan, mae'r Cyngor yn cynnig trosglwyddo'r disgyblion sydd wedi cofrestru yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion i ddau safle yn Oak House, Llaneirwg ac i lety newydd ar y safle sy'n cael ei feddiannu ar hyn o bryd gan Ysgol Uwchradd Willows, Tremorfa.

129. Byddai Ysgol Arbennig Greenhill yn dod i safle Tŷ Derw tra bo'r gwaith o adeiladu ei gyfleusterau newydd yn Heol Brynglas yn cael ei gwblhau. Yn dilyn gwagio Tŷ Derw ym mlwyddyn ysgol 2026/2027, cynigir bod Oak House yn darparu hyd at 42 o leoedd ar gyfer yr Uned Cyfeirio Disgyblion.

130. Mae safle Ysgol Uwchradd Willows ym mherchnogaeth y Cyngor a bydd yn cael ei ryddhau yn dilyn trosglwyddo Ysgol Uwchradd Willows i adeiladau newydd yn Heol Lewis ym mlwyddyn ysgol 2025/2026. Mae'r Cyngor yn cynnig adeiladu cyfleuster newydd i ddarparu ar gyfer hyd at 48 o ddysgwyr sydd wedi cofrestru yn yr Uned Cyfeirio Disgyblion ar ran o safle Ysgol Uwchradd Willows ym mlwyddyn ysgol 2027/2028.

131. Byddai ehangu'r Uned Cyfeirio Disgyblion o fis Medi 2023 ar safle Fitzalan, a'i throsglwyddo i gyfleusterau newydd ar safle Oak House yn Llaneirwg a safle gwag Ysgol Uwchradd Willows yn:

- darparu capasiti ychwanegol i ddysgwyr ag Anghenion Iechyd Emosiynol a Lles.
- gwella lledaeniad daearyddol darpariaeth iechyd emosiynol a lles oed uwchradd, i Ogledd, De a Dwyrain y ddinas.
- lleihau amseroedd teithio i ddysgwyr
- cefnogi teithio annibynnol.

**Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr**

132. Ar hyn o bryd, mae pob un o'r tair ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn cefnogi dysgwyr ag Anghenion Iechyd Emosiynol a Lles o fewn eu darpariaeth prif ffrwd bresennol. Nid oes unrhyw ddarpariaeth arbenigol ar draws y ddinas.

133. Er mwyn ateb y galw cynyddol am leoedd cyfrwng Cymraeg mewn canolfannau adnoddau arbennig i ddysgwyr ag anghenion iechyd emosiynol a lles cynigir:

    - Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol ag 20 o leoedd ar gyfer iechyd emosiynol a lles yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr o fis Medi 2024.

134. Cynigir y byddai'r ganolfan newydd yn cael ei lletya yn adeiladau presennol yr ysgol.

**Y Cyfnod Cynradd - Anghenion Dysgu Cymhleth / Cyflwr Sbectrwm Awtistiaeth**

**Ysgol Gynradd Coed Glas**

135. Mae Ysgol Gynradd Coed Glas yn ysgol gynradd gymunedol Saesneg ar gyfer disgyblion 3 – 11 oed. Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn Rhodfa Tŷ Glas, Llanisien.

136. Er mwyn ateb y galw am leoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol cynradd i ddysgwyr, cynigir:

    - sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol ag 20 lle ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Cymhleth / Cyflwr Sbectrwm Awtistiaeth yn Ysgol Gynradd Coed Glas o fis Medi 2024.

137. Cynigir y byddai'r ganolfan yn cael ei lletya yn adeiladau’r ysgol bresennol.

**Ysgol Gynradd Greenway**

138. Mae Ysgol Gynradd Greenway yn ysgol gynradd gymunedol Saesneg ar gyfer disgyblion 3 – 11 oed. Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn Heol Llansteffan, Tredelerch.

139. Er mwyn ateb y galw am leoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol cynradd i ddysgwyr, cynigir:

    - sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 20 lle ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth / Cyflwr Sbectrwm Awtistiaeth yn Ysgol Gynradd Greenway o fis Medi 2024.

140. Cynigir y byddai'r ganolfan yn cael ei lletya yn adeiladau’r ysgol bresennol.

**Ysgol Gynradd Severn**

141. Mae Ysgol Gynradd Severn yn ysgol gynradd gymunedol Saesneg ar gyfer disgyblion 3 – 11 oed. Lleolir yr ysgol yn Severn Road, Treganna.

142. Er mwyn ateb y galw cynyddol am leoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol cynradd i ddysgwyr, cynigir:

- sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 20 lle ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth / Cyflwr Sbectrwm Awtistiaeth yn Ysgol Gynradd Severn o fis Medi 2024.

143. Cynigir y byddai'r ganolfan yn cael ei lletya yn adeiladau'r ysgol bresennol.

**Adleoli Ysgol Gynradd Lansdowne dros dro**

144. Mae Ysgol Gynradd Lansdowne yn ysgol gynradd gymunedol Saesneg ar gyfer disgyblion 3 – 11 oed. Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn Norfolk Street, Treganna.

145. Mae adeiladau'r ysgolion wedi dirywio dros y blynyddoedd diwethaf gyda gwaith trwsio cynyddol yn angenrheidiol. Er bod yr adeiladau wedi cael eu harolygu ac yn cael eu hystyried yn ddiogel, mae angen mynd i'r afael â chyflwr strwythurol yr adeiladau er mwyn atal difrod hirdymor a sicrhau diogelwch meddianwyr yn y dyfodol.

146. Mae'r Cyngor wedi ystyried parhau i weithredu Ysgol Gynradd Lansdowne gyfan neu ran ohoni ar ei safle presennol wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Fis Ionawr 2023, roedd 303 o ddisgyblion oed cynradd a 41 o ddisgyblion oed meithrin ar y gofrestr ac mae'r ysgol yn defnyddio'r rhan fwyaf o'i hystafelloedd dosbarth ar gyfer dosbarthiadau.

147. Fodd bynnag, oherwydd statws rhestredig Gradd II yr adeiladau, a maint y gwaith sydd ei angen i atgyweirio'r adeiladau, yn amodol ar benderfyniad pellach gan y Cabinet, mae'n bosib y bydd angen adleoli'r ysgol dros dro er mwyn gwneud y gwaith.

148. Mae cynlluniau'n cael eu datblygu ar hyn o bryd i ystyried lefel y gwaith sydd ei angen ar safle presennol Ysgol Uwchradd Fitzalan i gynnig amgylchedd dysgu addas i ysgol gynradd, amserlenni posibl ar gyfer y gwaith, a logisteg.

149. Bydd y Cyngor a Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Lansdowne yn gweithio'n agos i leihau unrhyw effaith bosibl ar addysgu a dysgu yn yr ysgol.

**Tîm Addysgu Cymunedol**

150. Mae'r Cyngor wedi clustnodi llety gwag yn hen Ganolfan Addysg Oedolion Severn, Treganna i gefnogi ehangu'r ddarpariaeth hon o fis Medi 2023 yn dilyn gwaith addasu.

151. Mae'r safle wedi'i leoli'n ganolog gyda chysylltiadau trafnidiaeth da ac mae ganddo ddigon o ofod i gefnogi'r gwasanaeth.

152. Bwriedir trosglwyddo'r Tîm Addysgu Cymunedol i hen Ganolfan Addysg Oedolion Severn o fis Medi 2023. Byddai hyn yn caniatáu i'r ddarpariaeth addysgu cymunedol ddarparu mwy o amser addysgu i ddysgwyr na'r ddarpariaeth bresennol, o hyd at 15 awr yr wythnos.

**Darpariaeth Iechyd**

153. Mae gan rai o'r disgyblion sy'n mynychu ysgolion Caerdydd anghenion iechyd ychwanegol sy'n ei gwneud yn ofynnol i ysgolion weithio gyda'r bwrdd iechyd.

154. Cynhaliwyd ystod eang o brosiectau cydweithredol gan y gwasanaethau Addysg ac Iechyd, i wella sgiliau staff addysg mewn lleoliadau ysgolion arbennig a phrif ffrwd, gan gynyddu eu gallu i roi cyngor gan wasanaethau iechyd ar waith, er budd unigolion a grwpiau. Er enghraifft, fel rhan o'r Dull Gweithredu Ysgol Gyfan o ymdrin ag iechyd emosiynol a lles, sefydlwyd un pwynt cyswllt ar gyfer cyngor a chymorth ar iechyd meddwl, ac mae timau iechyd meddwl yn gweithio'n uniongyrchol gydag ysgolion i wella cymorth ac ymyrraeth gynnar.

155. Yn ddiweddar, mae'r bwrdd iechyd wedi penodi swyddog prosiect i arwain ar brosiect lleol: 'Prosiect Twf Ysgolion Arbennig', sy'n edrych ar greu model o weithio amlasiantaethol er mwyn cefnogi anghenion iechyd plant yn ysgolion Caerdydd a Bro Morgannwg yn y modd gorau. Bydd swyddogion yn gweithio gyda chydweithwyr iechyd er mwyn helpu i symud y prosiect hwn yn ei flaen.

**Trefniadau Llywodraethu**

156. Ni fyddai angen unrhyw newidiadau i'r trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer sefydlu'r ddarpariaeth adnoddau arbenigol arfaethedig yn Ysgol Gynradd Baden Powell, Ysgol Gynradd y Tyllgoed, Ysgol Gynradd Lakeside, Ysgol Gynradd Springwood ac Ysgol Gymraeg Pwll Coch ac Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, Ysgol Gynradd Coed Glas, Ysgol Gynradd Greenway ac Ysgol Gynradd Severn.

157. Ni fyddai ehangu arfaethedig Ysgol Arbennig Greenhill yn gofyn am unrhyw newid i'r trefniadau llywodraethu presennol gyda'r ysgol yn gweithredu ar draws dau safle o dan un strwythur rheoli a llywodraethu.

158. Mae'r Uned Cyfeirio Disgyblion yn cael ei goruchwylio gan bwyllgor rheoli sydd â rôl strategol a chynghorol wrth nodi a chynnal gweledigaeth, nodau ac amcanion yr uned ar y cyd â'r ALl. Mae gan y pwyllgor gyfrifoldeb statudol dros rai swyddogaethau a thasgau a disgwylir iddynt gymryd rhan weithredol yn y rhan fwyaf o benderfyniadau i sicrhau bod yr Uned Cyfeirio Disgyblion yn cael ei rhedeg yn effeithiol ac yn darparu addysg addas i ddysgwyr. Gall ehangu arfaethedig darpariaeth yr Uned Cyfeirio Disgyblion arwain at yr angen am bwyllgor rheoli mwy a bydd swyddogion yn trafod adolygiad o'r offeryn llywodraethu gyda'r pwyllgor yn unol â Rheoliadau

Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Pwyllgorau Rheoli ac ati) (Cymru) 2014.

## Cyllid cyfalaf y cynigion

159. Roedd cost cyfalaf y gwaith i ehangu Ysgol Arbennig Greenhill yn rhan o raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Caerdydd, rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif gynt, y cytunwyd arni mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru yn 2017. Byddai cost cyfalaf gwaith ar gynigion eraill i ehangu darpariaeth arbenigol yn cael ei thalu o raglen adnewyddu asedau Addysg y Cyngor. Rhaglen bum mlynedd yw hon sy'n blaenoriaethu gwaith gan gynnwys digonolrwydd, cyflwr ac addasrwydd ADY.

160. Nid oes arian refeniw ychwanegol nac arian wedi'i glustnodi i gefnogi'r broses o newid trefniadaethol. Rhaid i unrhyw newid gael ei ariannu o adnoddau'r Cyngor.

## Arfarniad ariannol o'r cynigion

161. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i egwyddorion cynhwysiant ac mae'n cydnabod y ceir y gefnogaeth orau i'r mwyafrif o blant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol yn eu hysgolion prif ffrwd lleol. Rhaid i'r Cyngor, fodd bynnag, sicrhau bod y gefnogaeth a ddarperir i ddisgyblion yn briodol i'w hanghenion unigol. Yn gyffredinol, mae cost fesul disgybl mewn ysgol arbennig yn fwy i'r Cyngor na chost lle ysgol brif ffrwd gyda chymorth 1:1. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi ysgwyddo costau cynyddol lleoliadau mewn ysgolion annibynnol i gwrdd â'r diffyg darpariaeth yn y sir ac i sicrhau bod anghenion dysgwyr yn cael eu diwallu'n llawn.

162. Gan nad oes digon o leoedd ysgol arbennig yng Nghaerdydd ar hyn o bryd, mae'r Cyngor wedi ariannu rhai lleoedd mewn ysgolion arbennig yn ardaloedd Cynghorau eraill neu mewn ysgolion annibynnol. Cyfanswm y gwariant ar ddarpariaeth arbenigol o'r fath oedd £8.9m yn 2022/23. Mae'r gyllideb ar gyfer 2023/24 ar gyfer y mathau hyn o leoedd wedi'i phennu ar hyn o bryd ar £10.3m. Yn gyffredinol, byddai ehangu darpariaeth o fewn y Sir yn cynnig defnydd mwy effeithlon ac effeithiol o adnoddau ariannol y Cyngor sy'n dibynnu ar leoedd mewn ysgolion annibynnol.

163. Mae'r fformiwla ariannu ysgolion yn seiliedig ar gyllid fesul disgybl a nifer o gyfandaliadau fesul ysgol. Mae cyllid fesul disgybl yn uwch mewn ysgolion arbennig, nag mewn ysgolion prif ffrwd, oherwydd costau staffio a chostau sefydlog eraill sy'n cael eu hamsugno dros nifer isel o ddisgyblion a maint dosbarthiadau bach. Fodd bynnag, rhaid cydbwyso creu sefydliad effeithlon yn erbyn maint priodol y ddarpariaeth arbenigol sy'n caniatáu cynnig addysg sy'n effeithiol, meithringar a chyfannol.

164. Byddai cynnydd yn nifer yr ysgolion arbennig yng Nghaerdydd yn cynyddu o un, nifer y dyraniadau cyfandaliad i ysgolion drwy'r fformiwla ariannu. Ni fyddai ehangu'r ddarpariaeth bresennol mewn ysgol neu UCD, neu newid statws o ddosbarth lles i Ganolfan Adnoddau Arbenigol, yn effeithio ar nifer y dyraniadau cyfandaliad.

165. Yn gyffredinol, gall ysgolion mwy o faint hefyd sicrhau gwell gwerth am arian drwy arbedion maint mewn nifer o feysydd gan gynnwys rheoli contractau ac o bosibl yn eu strwythur staffio, o'u cymharu ag ysgolion llai neu sefydlu ddarpariaeth newydd pobu un â llai o ddysgwyr wedi cofrestru ynddynt.

166. Mae ysgolion sy'n cynnal Canolfannau Adnoddau Arbenigol yn derbyn cyfandaliad o arian ar gyfer y ganolfan, a gyfrifir ar sail nifer y lleoedd sydd gan y ganolfan.

167. Mae ysgolion prif ffrwd sy'n addysgu disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol sydd angen cymorth 1:1 yn derbyn cyllid Gwella Anghenion Cymhleth ychwanegol. Mae ysgolion yn ategu'r costau yr eir iddynt wrth ddarparu'r cymorth hwn o'u cyllidebau.

<u>Costau lleoliad</u>

168. Nid yw rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru yn darparu unrhyw adnoddau ariannol ychwanegol ar gyfer ailstrwythuro strwythurau staffio ysgolion yr effeithir arnynt wrth ad-drefnu darpariaeth. Y Cyngor fyddai'n talu'r costau hyn.

169. Mae'r gwahaniaeth mewn costau refeniw cyfartalog fesul disgybl rhwng lleoliadau mewn ysgolion arbennig a Chanolfannau Adnoddau Arbenigol yng Nghaerdydd, a darpariaeth annibynnol amgen, ar gyfartaledd yn is. Amcangyfrifir bod y gwahaniaeth presennol mewn costau refeniw cyfartalog fesul disgybl rhwng lleoliadau yn Ysgol Arbennig Greenhill neu'r UCD, ac mewn darpariaeth annibynnol amgen, yn fwy na £23,000 y flwyddyn, fesul dysgwr ar gyfartaledd, ynghyd â chostau cludiant. Fodd bynnag, nid oes digon o leoedd ar gael mewn ardaloedd Cyngor eraill nac mewn ysgolion annibynnol o fewn pellter teithio rhesymol ar gyfer nifer y dysgwyr y rhagwelir y bydd angen cymorth o'r fath arnynt.

170. Yng Ngwanwyn 2023, cyfanswm y disgyblion a gofrestrodd yn Ysgol Arbennig Greenhill oedd 64. Mae'r costau ychwanegol fesul lle yn Ysgol Arbennig Greenhill wedi'u cyfrifo ar oddeutu £28,000 fesul dysgwr yn seiliedig ar lefelau cyllido 2023/24. Byddai derbyn 20 o ddysgwyr ychwanegol i'r ysgol yn cael ei gyflwyno'n raddol o flwyddyn ysgol 2025/2026.

171. Byddai ehangu Ysgol Arnebbig Greenhill yn arwain at gostau staffio ac arwain ychwanegol i'r ysgol fyddai'n cael eu talu o gyllideb yr ysgol. Byddai ehangu'r UCD yn arwain at gostau staffio ac arwain ychwanegol i'r ysgol fyddai'n cael eu talu o gyllideb yr ysgol. Byddai'r gyllideb i Greenhill a'r UCD yn cynyddu yn unol â'r nifer uwch o ddisgyblion sydd ar y gofrestr.

172. Yng Ngwanwyn 2023, cyfanswm y disgyblion a gofrestrodd yn yr UCD, neu fynychodd yr UCD, oedd 90. Mae'r costau ychwanegol fesul lle yn yr UCD wedi'u cyfrifo ar oddeutu £25,000 fesul dysgwr yn seiliedig ar gostau'r ddarpariaeth bresennol. Byddai derbyn 90 o ddysgwyr ychwanegol i'r UCD yn cael ei gyflwyno'n raddol o 2023/24 a disgwylir i bob lle gael ei ddefnyddio o 2024/25.

Costau trafnidiaeth o’r cartref i’r ysgol

173. Y gost flynyddol i'r Cyngor ar drafnidiaeth ysgol i ddysgwyr oed uwchradd gydag anghenion Iechyd Emosiynol a Lles i ddarpariaeth o fewn y Sir yw cyfartaledd o tua £4,000 fesul dysgwr. Y gost flynyddol i'r Cyngor ar drafnidiaeth ysgol i ddysgwyr gydag anghenion Iechyd Emosiynol a Lles i ddarpariaeth annibynnol amgen yw tua £7,500 y dysgwr. Fodd bynnag, gall costau trafnidiaeth amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar gyfeiriad cartref y disgyblion sy'n mynychu.

174. Gallai gweithredu'r newidiadau arfaethedig arwain at gostau trafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol uwch i'r Cyngor ond helpu i liniaru'r cynnydd mewn costau fesul disgybl. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd nifer y dysgwyr sy'n cael trafnidiaeth am ddim o'r cartref i'r ysgol i Ysgol Gynradd y Tyllgoed, Ysgol Gynradd Lakeside, Ysgol Gynradd Springwood, Ysgol Uwchradd Fitzalan ac Ysgol Gymraeg Pwll Coch ar lefel debyg yn y blynyddoedd i ddod i'r hyna welwyd yn 2022/2023.

175. Byddai nifer y dysgwyr sy'n cael mynd am ddim o'r cartref i UCD yn cynyddu o fis Medi 2023. Roedd y gost flynyddol i'r Cyngor o drafnidiaeth ysgol i'r UCD ar safle Mynachdy ar gyfartaledd oddeutu £5,200 y dysgwr ym mlwyddyn ysgol 2022/2023. Byddai costau ychwanegol yn cael eu hysgwyddo am drafnidiaeth i'r Canolfannau Adnoddau Arbenigol newydd y disgwylir iddynt fod yn is fesul disgybl nag yn y Canolfannau Adnoddau Arbenigol eraill, gan adlewyrchu dosbarthiad daearyddol lleol a ragwelir y dysgwyr a gaiff eu lleoli.

176. Mae dosbarthiad y lleoedd ychwanegol arfaethedig ledled y ddinas yn ceisio paru’r ddarpariaeth yn well i'r galw. Gan ystyried dosbarthiad y lleoedd ychwanegol arfaethedig ledled y ddinas, rhagwelir y byddai hyd cyfartalog y daith yn lleihau. Pe na bai'r newidiadau arfaethedig yn mynd rhagddynt, rhagwelir y byddai hyd cyfartalog teithiau i ddarpariaeth amgen, a chostau trafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol, yn cynyddu’n sylweddol.

177. Yn gyffredinol, byddai'r newidiadau arfaethedig yn arwain at ddefnydd mwy effeithlon o adnoddau ariannol o'i gymharu â gwariant ar leoliadau a thrafnidiaeth i ardaloedd Cyngor eraill neu ysgolion annibynnol .

178. Mae crynodeb o fodelu ariannol y lleoliadau ychwanegol a amlinellir i’w cael yn Atodiad 5. Mae crynodeb o waith modelu ariannol costau trafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol ar gyfer y lleoliadau arbenigol ychwanegol hyn ynghlwm yn Atodiad 6.

**Trefniadau Derbyn**

179. Rheolir derbyniadau i Ysgolion Arbennig a Chanolfannau Adnoddau Arbenigol, gan gynnwys Canolfannau Adnoddau Arbenigol Lles gan y Cyngor yn unol â'r Cod ADY. Panel lleoli darpariaeth arbenigol sy'n penderfynu ar leoliadau. Nod y panel yw gosod plant mor agos at eu cyfeiriad cartref â phosibl, fodd bynnag mae pob darpariaeth yn cynnig lleoedd i ddisgyblion o bob rhan o'r ddinas i sicrhau'r hyblygrwydd mwyaf.

180. Mae plant sy'n mynychu'r Dosbarthiadau Lles wedi'u cofrestru'n ddeuol, mewn ysgol leol ac yn yr ysgol letyol.

181. Caiff disgyblion eu derbyn i'r UCD drwy atgyfeiriad gan ysgolion i'r Panel Mynediad Teg, sy'n cael ei reoli gan y Cyngor.

**Effaith y cynigion ar y Gymraeg**

182. Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth Gymraeg Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg yn unol ag Adran 78 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r strategaeth yn cefnogi 'hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg'. Ei nod yn y tymor hir yw i Gymru gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

183. Mae'r strategaeth yn enwi addysg drochi cyfrwng Cymraeg fel y 'prif ddull o sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg, ac o greu siaradwyr newydd' (Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg, tud 21). Felly, bydd argaeledd addysg Gymraeg yn allweddol i gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg.

184. Y targed cenedlaethol yw:

- Cynyddu cyfran pob grŵp blwyddyn ysgol sy'n derbyn addysg Gymraeg o 22 y cant (yn seiliedig ar 7,700 o ddysgwyr saith oed yn 2015/16) i 30 y cant (tua 10,500 ym mhob grŵp blwyddyn) erbyn 2031, ac yna 40 y cant (tua 14,000 ym mhob grŵp blwyddyn) erbyn 2050.

185. Cydnabyddir yn y strategaeth y bydd y dull yn amrywio ar draws gwahanol ranbarthau yng Nghymru yn dibynnu ar nodweddion eu poblogaethau. Mae'r strategaeth hefyd yn clustnodi ardaloedd sydd â dwysedd poblogaeth uchel ond canran is o siaradwyr Cymraeg fel ardaloedd sydd â photensial penodol ar gyfer twf.

186. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i 'Gaerdydd wirioneddol ddwyieithog' gan gynnwys tyfu'r sector addysg Gymraeg ar draws pob cyfnod er mwyn cynyddu nifer y bobl o bob oed sy'n dod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg gyda'r hyder a'r awydd i ddefnyddio eu holl ieithoedd ym mhob agwedd ar eu bywydau.

187. Yn sail i'r weledigaeth hon mae'r egwyddorion canlynol:

- Cymhwyso egwyddorion y 'cymdogaethau 15-munud' i sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cyrchu addysg Gymraeg o fewn pellter rhesymol i'w cartrefi.
- Gall pob plentyn yn y ddinas ddewis derbyn eu haddysg yn Gymraeg neu Saesneg gyda manteision addysg ddwyieithog yn cael eu hyrwyddo'n weithredol i bob rhiant o eni'r plentyn.
- Bydd dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael cyfle ieithyddol cyfartal.

188. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, bydd y Cyngor yn sicrhau:

- Mwy o blant meithrin / tair oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mwy o blant dosbarth derbyn / pump oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn unol â'r dyletswyddau a osodir gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

189. Rhagwelir y byddai effaith gadarnhaol ar y Gymraeg o ganlyniad i'r cynigion hyn.

190. Mae'r cynigion yn ymateb yn uniongyrchol i'r Deilliant 6 CSCA canlynol – Cynnydd mewn darpariaeth addysg Gymraeg i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

191. Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos ac yn adeiladol gyda phartneriaid ar ei Fforwm Addysg Gymraeg, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau meithrin, cynradd, uwchradd ac addysg bellach, gofal plant, RhAG a Llywodraeth Cymru. Mae'r Fforwm hwn yn cyflwyno gwybodaeth ar gyfer cynllunio lleoedd cyfrwng Cymraeg, er mwyn parhau i yrru cynllun y Cyngor i gynyddu mewn modd cynaliadwy nifer y dysgwyr mewn ysgolion Cymraeg a'r rhai sy'n dysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

     Mae'r Cyngor, a'i bartneriaid ar y Fforwm Addysg Gymraeg, yn ymrwymo i sbarduno cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, i gyflawni'r targedau yn CSCA Caerdydd, ac i gyflawni'r targedau a nodir yn strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

192. Mae'r Cyngor yn monitro'r galw am ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol a phatrymau dewis darpariaeth addysg Gymraeg ar oed cynradd ac uwchradd, er mwyn rhoi cynlluniau priodol ar waith i fodloni unrhyw gynnydd yn y galw.

**Trefniadau Teithio i Ddysgwyr**

193. Nid oes cynlluniau i newid polisi trafnidiaeth y Cyngor ar gyfer plant ysgol.

194. Bydd unrhyw ddisgyblion y bydd y cynnig hwn yn effeithio arnyn nhw'n cael yr un cymorth â thrafnidiaeth ag a gaiff pawb trwy Gaerdydd ac yn unol â'r un meini prawf sy'n berthnasol ledled Caerdydd.

195. Gellir gweld polisi trafnidiaeth y Cyngor ar gyfer plant ysgol ar wefan y Cyngor www.caerdydd.gov.uk/trafnidiaethiysgolion.

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

196. Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu ysgolion lleol i blant lleol, ynghyd ag annog y defnydd o ddulliau cynaliadwy o deithio i ysgolion, megis cerdded a beicio.

197. Mae pob prosiect ysgol yn ystyried materion trafnidiaeth allweddol pan gaiff y prosiectau eu cynllunio ac yn ystyried yr angen i ddarparu llwybrau mwy diogel i annog cerdded, beicio a dulliau teithio llesol eraill i'r ysgol.

198. Yng ngoleuni'r pandemig a chyda'r buddsoddiadau presennol mewn TGCh ledled y ddinas, gallai symudiadau myfyrwyr leihau ymhellach wrth i dechnoleg symudol ddatblygu ymhellach gan ganiatáu dulliau addysgu hyblyg. Mae gan y rhain y potensial i arwain at Gynllun Teithio mwy effeithlon a chyfrannu ymhellach at dargedau'r Cyngor i leihau ei allyriadau carbon.

**Ymgynghori ag Aelodau Lleol (lle bo hynny'n briodol)**

199. Mae'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol ar draws y ddinas, ac ymgynghorir ag aelodau fel rhan o ymgynghoriad cyhoeddus.

**Ystyriaethau Craffu**

200. Bydd y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc yn ystyried yr adroddiad hwn ar 4 Gorffennaf 2023. Bydd unrhyw sylwadau a ddaw i law yn cael eu dosbarthu yng Nghyfarfod y Cabinet.

**Rhesymau dros yr Argymhellion**

201. Ateb y galw cynyddol am leoedd ysgol arbennig ar gyfer dysgwyr cynradd, uwchradd ac ôl-16 ag anghenion iechyd emosiynol a lles ac anghenion dysgu cymhleth.

**Goblygiadau Ariannol**

202. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r cais i fwrw ymlaen i ymgynghoriad cyhoeddus ar ystod eang o newidiadau i, ac ail-alinio darpariaeth ADY ledled Caerdydd. Nid yw bwrw ymlaen i ymgynghori, ynddo'i hun yn ymrwymo'r Awdurdod i wariant yn y dyfodol felly nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ran cyfalaf yn deillio'n uniongyrchol o'r adroddiad hwn. Fodd bynnag, unwaith y bydd papur opsiynau terfynol yn cael ei ddarparu, bydd angen cynnal gwerthusiad ariannol llawn. Nod hwn fydd rhoi sicrwydd bod y cynllun yn parhau i fod yn fforddiadwy unwaith y bydd yr holl gostau perthnasol ac wrth gefn ar gyfer newidiadau posibl mewn amserlenni cyflenwi wedi'u hymgorffori.

203. Mae ysgolion The Court a Greenhill yn rhan o raglen amlinellol Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Rhagfyr 2017. Bryd hynny cyfanswm gwerth y rhaglen oedd £284m. Nid yw Llywodraeth Cymru (LlC) wedi cymeradwyo cyllidebau prosiectau unigol yn ffurfiol ond maent wedi rhoi eu cefnogaeth mewn egwyddor i bob prosiect o fewn rhaglen Cyngor Caerdydd.

204. Mae costau cyffredinol y prosiectau Band B wedi'u cynnwys yn y rhagolwg llif arian parod Ysgolion yr 21ain Ganrif, i'w ariannu'n rhannol drwy Grant Llywodraeth Cymru ar 7% ar gyfer ysgolion arbennig. Bydd unrhyw gostau

refeniw syd dynghlwm â'r cynlluniau hyn, gan gynnwys costau ariannu cyfalaf, yn cael eu hariannu drwy Gronfa Refeniw CTY y Cyngor.

205. Mae disgwyl i darged derbyniadau cyfalaf o £25m ariannu rhan o'r rhaglen Band B gyffredinol. Nid yw ffynhonnell y derbyniadau hyn wedi'u nodi eto, ond dylid blaenoriaethu unrhyw warediadau ar safleoedd addysg i ariannu Band B.

206. Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi cynigion i greu lleoedd ychwanegol mewn lleoliad ADY ar draws Ysgolion Caerdydd. Bydd angen i'r lleoedd ychwanegol hyn gael eu hariannu o'r gyllideb ysgolion dirprwyedig bresennol. Mae'r adroddiad hwn yn amlygu cost uchel y ddarpariaeth bresennol ar gyfer y boblogaeth hon o ddisgyblion un ai drwy Leoliadau y Tu Allan i'r Sir neu daliadau Gwella Anghenion Cymhleth (TGAC) uwch i ddisgyblion prif ffrwd, a chostau trafnidiaeth. Mae angen gwaith pellach i nodi i ba raddau y gall yr arbedion mewn costau eraill dalu'r costau ychwanegol a nodwyd heb fod pwysau sylweddol ar gyllidebau ysgolion yn gyffredinol.

207. O ran refeniw, bydd angen sicrhau bod y cyllidebau blynyddol a ddyrennir i ysgolion yn adlewyrchu maint a strwythur pob ysgol. Mae cyllidebau ysgolion yn seiliedig ar niferoedd disgyblion yn bennaf ac, felly, bydd angen cynyddu cyllideb yr ysgol yn unol â'r lleoedd ADY ychwanegol. Er mwyn galluogi hyn i gael ei gyflawni, heb anfantais ariannol i gyllidebau ysgolion unigol eraill, bydd angen ystyried y twf a amcanestynnir mewn niferoedd disgyblion i broses o osod cyllideb flynyddol y Cyngor a chynllunio ariannol tymor canolig. Bydd angen ystyried costau trafnidiaeth ysgolion ar gyfer pob cynnig hefyd.

208. O ran goblygiadau cyfalaf, bydd angen gwerthusiad ariannol llawn ar unrhyw waith pellach sydd ei angen i ddarparu ar gyfer cynnydd niferoedd disgyblion a nodi'r ffynhonnell ariannu. Os bydd gofyn i'r Cyngor wneud cyfraniad tuag at y costau hyn, bydd angen i hyn gael ei ariannu o fewn yr adnoddau presennol a gymeradwywyd neu eu ffactora i gynlluniau Rhaglen Gyfalaf y Cyngor yn y dyfodol. Efallai y bydd cyllid ychwanegol hefyd ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau penodol neu ddefnydd cyfalaf ADY cyffredinol ond nid yw'r rhain wedi'u nodi na'u cadarnhau eto.

209. Fel rhan o'r gwerthusiad pellach sy'n ofynnol, bydd gofyn ystyried goblygiadau TAW sy'n deillio o drefniadau perchnogaeth tir ac eiddo o ran ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir ac ysgolion Sefydledig. Os bydd unrhyw gost yn gysylltiedig â'r driniaeth TAW ofynnol, bydd angen cynnwys hyn o fewn amlen ariannol gyffredinol y cynllun.

**Goblygiadau Cyfreithiol (gan gynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb lle bo hynny'n briodol)**

210. O dan Ddeddf Addysg 1996, mae dyletswydd statudol gyffredinol ar y Cyngor i hyrwyddo safonau addysg uchel ac i gynnig digon o leoedd ysgol i ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol, gan gynnwys darpariaeth briodol i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig (neu anghenion dysgu ychwanegol). Mae gan rieni hawl i fynegi eu bod yn ffafrio ysgol y dymunent

i'w plentyn ei mynychu o dan adran 86 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, ond nid yw hyn yn rhoi hawl i fynychu ysgol benodol, gan y gellir gwrthod ceisiadau o hyd lle byddai hyn yn rhagfarnu yn erbyn darparu addysg effeithlon neu ddefnyddio adnoddau'n effeithlon.

211. Ymhellach, mae gan y Cyngor ddyletswyddau statudol i wneud trefniadau ar gyfer darparu addysg addas yn yr ysgol neu heblaw yn yr ysgol i blant o fewn ardal yr awdurdod sydd:

(a) o oedran ysgol gorfodol, a
(b) oherwydd salwch, gwahardd o'r ysgol neu fel arall, na chânt dderbyn addysg addas am gyfnod oni bai bod trefniadau o'r fath yn cael eu gwneud ar eu cyfer.

212. Mae'r cynigion a amlinellir yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â'r dyletswyddau statudol hyn.

213. Gall awdurdod lleol wneud cynigion trefniadaeth ysgolion, gan gynnwys gwneud 'addasiadau a reoleiddir' i ysgol gymunedol neu ysgol arbennig gymunedol, o dan adrannau 42-44 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Mae'r cynigion a nodir yn yr adroddiad gyfystyr â 'newidiadau a reoleiddir' a rhaid eu hystyried gan roi sylw i ddarpariaethau Deddf 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, sy'n nodi ffactorau i'w hystyried ynghlwm â gwahanol gynigion, y gweithdrefnau statudol, y gofynion a'r canllawiau cyfreithiol.

214. Pan gynigir cynnydd yng nghapasiti ysgol, rhaid i'r Cyngor ystyried tystiolaeth o angen/galw presennol neu yn y dyfodol yn yr ardal am leoedd ychwanegol, gan gyfeirio at gategori iaith yr ysgol (a chymeriad crefyddol / y rhyw a dderbynnir os yw'n berthnasol). Mae'r Cod hefyd yn cynnwys ffactorau penodol i'w hystyried ynghlwm â chynigion ar gyfer ad-drefnu darpariaeth ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig (neu Anghenion Dysgu Ychwanegol). Bydd angen i'r Cabinet fod yn fodlon bod yr holl ffactorau perthnasol yn cael eu hystyried yn briodol ynghlwm â'r cynigion.

215. Cyn cyhoeddi ei gynigion, mae'n ofynnol i'r Cyngor gynnal ymgynghoriad ar ei gynigion yn unol ag adran 48 y ddeddf honno a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Mae'r argymhellion yn ceisio awdurdod i gynnal yr ymgynghoriad statudol hwnnw. Mae cyfraith achosion wedi sefydlu y dylai'r broses ymgynghori: (i) gael ei chynnal pan fydd cynigion yn dal i fod ar gam ffurfiannol; (ii) cynnwys digon o resymau a gwybodaeth am gynigion penodol i alluogi ystyriaeth ac ymateb deallus; (iii) rhoi digon o amser i'w hystyried ac i ymateb; a; (iv) sicrhau bod canlyniadau yr ymgynghoriad yn cael eu hystyried yn gydwybodol pan wneir y penderfyniad terfynol.

216. Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi gofynion a chanllawiau manwl pellach ynghlwm â'r ymgynghoriad statudol, gan gynnwys y gofyniad i gyhoeddi dogfen ymgynghori (a chynnwys y ddogfen honno), cyfnod ymgynghori o 42 diwrnod o leiaf gan gynnwys o leiaf 20 diwrnod ysgol, a rhestr o ymgyngoreion statudol, gan gynnwys rhieni, disgyblion, cyrff llywodraethu, cyrff crefyddol, Gweinidogion Cymru ac Estyn. Wrth ystyried y cynigion, rhaid i'r Cyngor barchu ei ddyletswyddau cyfle cyfartal sector

gyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys dyletswyddau penodol i'r sector gyhoeddus yng Nghymru). Yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol hyn, rhaid i Gynghorau wrth wneud penderfyniadau dalu sylw dyledus i'r angen i (1) waredu gwahaniaethu anghyfreithlon, (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasoedd da ar sail nodweddion gwarchodedig. Y nodweddion gwarchodedig yw: oed, ailbennu rhywedd, rhyw, hil – gan gynnwys tras ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd, anabledd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred. Wrth wneud penderfyniadau strategol, mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol hefyd i roi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol ('y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol' a osodir o dan adran 1 Deddf Cydraddoldeb 2010). Wrth ystyried hyn, rhaid i'r Cyngor ystyried y canllawiau statudol a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru a rhaid iddo allu dangos sut y mae wedi cyflawni ei ddyletswydd. Dylid cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i nodi goblygiadau'r penderfyniad arfaethedig o ran cydraddoldeb, gan gynnwys anghydraddoldebau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol, a dylid rhoi sylw dyledus i ganlyniadau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

217. Rhaid i'r Cyngor fod yn ystyriol hefyd o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg ac ystyried effaith ei gynigion ar y Gymraeg.

218. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gofyn bo'r Cyngor yn ystyried sut fydd y cynigion yn cyfrannu at fodloni ei amcanion llesiant (a nodir yn y Cynllun Corfforaethol). Rhaid i aelodau fod yn fodlon hefyd bod y cynigion yn cydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sy'n ei gwneud yn ofynnol i anghenion y presennol gael eu bodloni heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu anghenion eu hunain.

219. Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad ymgynghori, sy'n nodi'r materion a godwyd gan ymgyngoreion a'i ymateb i'r materion hynny. Bryd hynny, caiff adroddiad pellach ei gyflwyno i'r Cabinet i benderfynu sut i fwrw ymlaen.

220. Bydd cyngor cyfreithiol pellach yn cael ei gynnig wrth i gynigion gael eu datblygu.

<u>Cyffredinol</u>

221. Dylai'r penderfynwr fod yn fodlon bod y penderfyniad yn unol â'r polisi ariannol a chyllidebol.

**<u>Goblygiadau o ran Eiddo</u>**

**Ehangu Ysgol Arbennig Greenhill ar ran o safle Tŷ Glas**

222. Prynwyd safle Tŷ Glas 17.8 erw yn Llanisien gan y Cyngor i ganiatáu ar gyfer symud opsiynau yn eu blaen ar gyfer ysgol uwchradd gymunedol brif ffrwd a darpariaeth ysgol arbennig.

223. Rhoddwyd cymeradwyaeth cynllunio ar gyfer dymchwel yr adeiladau presennol yn 2022 a bydd y gwaith hwnnw'n dechrau yn ddiweddarach eleni.

224. Ar hyn o bryd nid oes angen prynu tir ychwanegol i hwyluso ehangu Ysgol Arbennig Greenhill i ran o safle Tŷ Glas.

**Ehangu Ysgol Arbennig Greenhill ar y safle presennol**

225. Mae'r Cyngor yn berchen ar safle Ysgol Arbennig Greenhill yn Rhiwbeina, ac mae mynediad i'r safle drwy Heol Brynglas sy'n ffordd bengaead heb ei mabwysiadu sy'n rhoi mynediad i'r ysgol yn ogystal â 4 tŷ preifat.

226. Mae Heol Brynglas yn rhy gul i ganiatáu ar gyfer dwysáu sylweddol ar y safle a bydd angen gwelliannau i'r mynediad hwn neu greu mynediad amgen.

227. Fodd bynnag, nid oes unrhyw eiddo i'r Cyngor yn union wrth ymyl y safle ac felly byddai angen caffael tir gan drydydd partïon er mwyn hwyluso hyn.

228. Mae'r Cyngor wedi nodi cyfleoedd amrywiol i greu mynediad amgen ac yn archwilio'r rhain ar hyn o bryd. Bydd priswyr allanol annibynnol yn cael eu cynnwys i gynghori'r Cyngor ar unrhyw gaffaeliad arfaethedig ar yr adeg briodol.

**Ehangu UCD ar ran o'r safle sy'n cael ei feddiannu ar hyn o bryd gan Ysgol Uwchradd Fitzalan (lleoliad dros dro)**

229. Mae'r Cyngor yn berchen ar safle Ysgol Uwchradd Fitzalan yn Leckwydd ac mae'n ymestyn i ychydig dros 33 erw. Bydd yr ysgol yn gadael ac yn symud i safle Heol Lecwydd ym mis Medi 2023 unwaith y bydd yr ysgol newydd wedi'i chwblhau.

230. Bydd ystadau'n parhau i weithio gyda'r adran Gyfreithiol i ymgymryd â diwydrwydd dyladwy ond ar hyn o bryd ni ragwelir bod angen prynu tir ychwanegol i hwyluso sefydlu darpariaeth newydd yn ei leoliad dros dro ar ran o safle Ysgol Uwchradd Fitzalan.

**Ehangu UCD ar ran o'r safle sy'n cael ei feddiannu ar hyn o bryd gan Ysgol Uwchradd Willows**

231. Mae'r Cyngor yn berchen ar safle Ysgol Uwchradd Willows yn Nhremorfa ac mae'n ymestyn i ychydig dros 20 erw. Bydd yr ysgol yn gadael ac yn symud i safle Heol Lewis yn 2025/2026 unwaith y bydd yr ysgol newydd wedi'i hadeiladu.

232. Mae rhai o'r caeau chwaraeon presennol wedi'u huwchraddio gan drydydd parti a bydd y Cyngor yn dechrau prydlesu yn fuan i ddogfennu gweithrediad a rheolaeth y caeau hynny.

233. Bydd ystadau'n parhau i weithio gyda'r adran gyfreithiol i ymgymryd â diwydrwydd dyladwy ond ar hyn o bryd ni ragwelir y bydd angen prynu tir

ychwanegol i hwyluso sefydlu darpariaeth newydd ar ran o safle Ysgol Uwchradd Willows.

**Ehangu UCD ar safle Tŷ Derw**

234. Mae'r Cyngor yn berchen ar safle Tŷ Derw ym Mharc Busnes Llaneirwg ac mae'n ymestyn i ychydig dros 2 erw. Cafodd ei brynu yn y lle cyntaf i ddarparu cartref i brif wasanaethau technoleg y Cyngor, ond mae'r Ganolfan Derbyn Larymau a gwasanaethau 24/7 eraill bellach yn cael eu symud i Adain y Gogledd yn Neuadd y Sir ac mae Tŷ Derw bellach ar gael ar gyfer Addysg.

235. Bydd ystadau'n parhau i weithio gyda'r adran gyfreithiol i ymgymryd â diwydrwydd dyladwy ond ar hyn o bryd ni ragwelir y bydd angen prynu tir ychwanegol i hwyluso sefydlu darpariaeth newydd ar safle Tŷ Derw.

**Adleoli Tîm Addysgu Cymunedol ar safle Ysgol Gynradd Severn**

236. Mae safle Ysgol Gynradd Severn yn Nhreganna yn eiddo i'r Cyngor ac mae'n ymestyn i tua 2.3 erw.

237. O ystyried mai cyfleuster presennol i'r Cyngor yw hwn, nid yw Ystadau'n rhagweld y bydd angen unrhyw gyngor eiddo pellach. Nid oes angen prynu tir ychwanegol i hwyluso adleoli'r Tîm Addysgu Cymunedol i safle Ysgol Gynradd Severn.

**Safleoedd ysgolion cynradd**

238. Mae Ysgol Gynradd Baden Powell yn Nhremorfa yn eiddo i'r Cyngor ac yn ymestyn i tua 2.6 erw. Nid oes angen prynu tir ychwanegol i hwyluso sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 8 lle ar gyfer iechyd emosiynol a lles yn Ysgol Gynradd Baden Powell o fis Medi 2024 yn yr adeiladau presennol.

239. Mae'r Cyngor yn berchen ar Ysgol Gynradd y Tyllgoed yn y Tyllgoed ac mae'n ymestyn i tua 12.1 erw. Nid oes angen prynu tir ychwanegol i hwyluso sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 8 lle ar gyfer iechyd emosiynol a lles yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed o fis Medi 2024 yn yr adeiladau presennol.

240. Mae Ysgol Gynradd Herbert Thompson yn Nhrelái yn eiddo i'r Cyngor ac yn ymestyn i tua 3.0 erw. Nid oes angen prynu tir ychwanegol i hwyluso sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 16 lle ar gyfer iechyd emosiynol a lles yn Ysgol Gynradd Herbert Thompson o fis Medi 2024 yn yr adeiladau presennol.

241. Mae Ysgol Gynradd Lakeside yn Lakeside yn eiddo i'r Cyngor ac mae'n ymestyn i tua 6.9 erw. Nid oes angen prynu tir ychwanegol i hwyluso sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 16 lle ar gyfer iechyd emosiynol a lles yn Ysgol Gynradd Lakeside o fis Medi 2024 yn yr adeiladau presennol.

242. Mae Ysgol Gynradd Springwood yn Llanedern yn eiddo i'r Cyngor ac mae'n ymestyn i tua 6.8 erw. Nid oes angen prynu tir ychwanegol i hwyluso

sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 8 lle ar gyfer iechyd emosiynol a lles yn Ysgol Gynradd Springwood o fis Medi 2024 yn yr adeiladau presennol.

243. Mae'r Cyngor yn berchen ar Ysgol Gymraeg Pwll Coch yn Leckwydd ac mae'n ymestyn i tua 3.6 erw. Nid oes angen prynu tir ychwanegol i hwyluso sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 8 lle ar gyfer iechyd emosiynol a lles yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch o fis Medi 2024 yn yr adeiladau presennol.

244. Mae'r Cyngor yn berchen ar Ysgol Gynradd Coed Glas yn Llanisien ac mae'n ymestyn i tua 6 erw. Nid oes angen prynu tir ychwanegol i hwyluso sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 20 lle ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Coed Glas o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.

245. Mae Ysgol Gynradd Greenway yn Nhredelerch yn eiddo i'r Cyngor ac yn ymestyn i tua 8 erw. Nid oes angen prynu tir ychwanegol i hwyluso sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 20 lle ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Greenway o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.

246. Ysgol Gynradd Severn yn Nhreganna yn eiddo i'r Cyngor ac yn ymestyn i tua 2.3 erw. Nid oes angen prynu tir ychwanegol i hwyluso sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 20 lle ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Severn o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.

**Goblygiadau o ran AD**

Canolfannau Adnoddau Arbenigol

247. Byddai cynigion i sefydlu Canolfannau Adnoddau Arbenigol yn gofyn bod Cyrff Llywodraethu perthnasol yn ystyried gofynion y gweithlu yn barod ar gyfer yr ehangiadau. Byddai’r Cyrff Llywodraethu’n cael eu hannog i ymgymryd â'r gwaith hwn yn unol â’r Fframwaith AD Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion. Byddai Gwasanaethau Pobl AD yn rhoi cyngor, cymorth ac arweiniad i'r Cyrff Llywodraethu ar y broses o gynllunio'r gweithlu a phrosesau recriwtio dilynol.

248. Pan fo Cyrff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Diswyddo ar gyfer Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol ar gyfer iechyd emosiynol a lles yn rhoi cyfleoedd i staff mewn ysgolion fynd ar y gofrestr adleoli ar gyfer ysgolion.

Ysgol Arbennig Greenhill

249. Byddai'r cynigion i gynyddu capasiti Ysgol Arbennig Greenill yn ei gwneud yn ofynnol i'r Corff Llywodraethu gynllunio ar gyfer gofynion y gweithlu yn barod ar gyfer yr ehangu. Byddai’r Corff Llywodraethu’n cael ei annog i ymgymryd â'r gwaith hwn yn unol â’r Fframwaith AD Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion. Byddai’r Gwasanaethau Pobl AD yn rhoi cyngor, cymorth ac arweiniad i'r Corff Llywodraethu ar gyfer y broses o gynllunio'r gweithlu a phrosesau recriwtio dilynol.

250. Lle mae’r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Diswyddo ar gyfer Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i gynyddu’r capasiti yn rhoi cyfleoedd i staff ysgol sydd ar y gofrestr adleoli ar gyfer ysgolion.

251. Mae'r cynnig hefyd yn cynnwys yr ysgol i weithredu trefniadau safle ddeuol. Bydd hyn yn gofyn am lefelau uchel o ymgynghori â staff ac undebau llafur, cynlluniau cyfathrebu clir ynghylch y trefniadau ar gyfer trosglwyddo o un safle ysgol i'r llall; a chyfranogiad staff wrth ddatblygu manylebau neu ddyluniadau adeiladau.

<u>Uned Cyfeirio Disgyblion</u>

252. Bydd y cynnydd arfaethedig yn nifer y disgyblion ar gyfer yr uned yn ei gwneud yn ofynnol i'r pwyllgor rheoli gynllunio ar gyfer y gofynion gweithlu yn barod ar gyfer yr ehangiad. Bydd Gwasanaethau Pobl AD yn rhoi cyngor, cymorth ac arweiniad i'r pwyllgor rheoli ar gyfer cynllunio'r gweithlu a phrosesau recriwtio dilynol.

253. Lle mae’r pwyllgor rheoli wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Diswyddo ar gyfer Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i gynyddu’r nifer ar y gofrestr yn rhoi cyfleoedd i staff ysgol sydd ar y gofrestr adleoli ysgolion.

254. Mae'r cynnig hefyd yn cynnwys yrUCD i weithredu ar draws dwy safle. Bydd hyn yn gofyn am lefelau uchel o ymgynghori â staff ac undebau llafur; cyfathrebu clir ar drefniadau'r safle; yn ogystal â chyfranogiad staff yn natblygiad manylebau adeiladau.

<u>Tîm Addysgu Cymunedol</u>

255. Byddai angen ymgynghori'n llawn â staff a chydweithwyr undebau llafur i sicrhau trosglwyddiad esmwyth y Tîm Addysgu Cymunedol i hen Ganolfan Addysg Oedolion Severn.

## <u>**Goblygiadau Traffig a Thrafnidiaeth**</u>

<u>Pwyntiau cyffredinol</u>

256. Mae anghenion unigol disgyblion mewn Ysgolion Arbennig a Chanolfannau Adnoddau Arbenigol, ynghyd â'r pellteroedd mwy a deithir, yn cyfyngu ar y cyfle i gael cyfraddau teithio llesol uchel o gymharu â disgyblion ysgolion prif ffrwd.

257. Mae'r Cyngor yn defnyddio'r meini prawf pellter cerdded cymwys statudol i ddisgyblion er mwyn bod yn gymwys i gael trafnidiaeth am ddim o'r cartref i’r ysgol ar gyfer ysgolion Arbennig a CAAau  Ar ben hynny, efallai y bydd rhai dysgwyr sy'n byw o fewn dwy / tair milltir i'r ysgol yn cael trafnidiaeth am ddim oherwydd eu hanghenion dysgu unigol a materion cymdeithasol.

258. Mae'r cynnydd yn y ddarpariaeth leoedd mewn ysgolion arbennig a CAAau ar draws y ddinas yn golygu nad oes disgwyl i wariant trafnidiaeth allan o'r

sir gynyddu, ac mae'r gost drafnidiaeth fesul dysgwr unigol yn debygol o leihau. Fodd bynnag, oherwydd y niferoedd cynyddol o ddysgwyr cymwys, mae disgwyl o hyd y bydd risg o gostau trafnidiaeth uchel.

259. Yn gyffredinol, nid oes disgwyl i'r niferoedd uchel presennol o ddisgyblion ysgol arbennig sy'n gymwys i gael Trafnidiaeth i Ddysgwyr newid yn sylweddol, fodd bynnag, mae cyfran o ddisgyblion UCD Greenhill a rhai uwchradd yn gallu, ac efallai y byddant eisoes yn teithio i'r ysgol yn annibynnol. Byddai'r disgyblion hyn yn ogystal â staff ac ymwelwyr â'r ysgol yn elwa ar unrhyw welliannau gofynnol mewn cyfleusterau ar gyfer teithio llesol i'r ysgol neu gyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus.

260. Byddai angen Asesiadau Trafnidiaeth ar gyfer y cynigion adeiladu ysgol newydd. Bydd y rhain yn clustnodi mesurau i'w cynnwys fel rhan o'r cais i sicrhau bod moddau teithio cynaliadwy yn cael eu defnyddio i'r eithaf.

261. Mae nifer o fentrau wedi llwyddo i ddangos cefnogaeth ac anogaeth ar gyfer teithio llesol a chynaliadwy ymhlith y garfan ADY, gan gynnwys Hyfforddiant Teithio Annibynnol i ddisgyblion hŷn, cynnal a chadw beics a hyfforddiant beicio.

262. Gall rhai disgyblion deithio'n annibynnol neu gyda rhiant/gofalwyr ac os ydynt yn byw o fewn y pellter cymwys o ddwy filltir, efallai na fyddant yn gymwys ar gyfer Trafnidiaeth i Ddysgwyr.

263. Byddai darparu'r gwelliannau a argymhellir ar gyfer teithio llesol o fudd i'r disgyblion hyn yn ogystal ag unrhyw ddisgyblion prif ffrwd, staff ac ymwelwyr â'r safleoedd. Gallai'r rhain gynnwys gwelliannau diogelwch priodol ar y ffyrdd megis croesfannau, cyfleusterau beicio, parcio beic diogel, a gwelliannau i gyfleusterau aros am fysiau.

264. Bydd nifer y disgyblion sy'n parhau i ddefnyddio Trafnidiaeth i Ddysgwyr ar gyfer eu taith i'r ysgol yn debygol o gynyddu yn unol â'r duedd ar gyfer niferoedd cynyddol o ddisgyblion sydd angen lleoedd mewn ysgolion arbennig neu ganolfannau adnoddau arbenigol. Bydd pob lleoliad ysgol sydd â galw newydd neu fwy am gerbydau Cludiant i Ddysgwyr yn gofyn am gyfleusterau newydd, gwell a / neu estynedig addas ar gyfer danfon a chasglu ar y safle. Byddai angen i'r ardaloedd sydd eu hangen ddarparu ar gyfer nifer priodol o gerbydau a allai fod yn fras tua un tacsi ar gyfer cyfartaledd nodweddiadol o 3 disgybl. Mewn rhai achosion, gall bysus mini fod yn addas, ond mae hyn hefyd yn dibynnu ar anghenion disgyblion unigol, lleoliadau cartref a llwybrau.

265. Byddai darpariaeth parcio ceir mewn ysgolion newydd yn unol â safonau parcio'r Cyngor. Cytunir ar ddyraniadau ar gyfer ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau arbenigol fesul achos ond disgwylir i'r gofynion gyfateb yn gyffredinol i 1 lle car fesul nifer nodweddiadol o ddisgyblion mewn dosbarth. Mae hyn yn cyd-fynd â'r gofod safonol 1 fesul 30 disgybl mewn ysgolion prif ffrwd, ond mae'n arwain at gymhareb uwch o leoedd oherwydd maint llawer llai y dosbarthiadau.

Ehangu Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) ar safle dros dro yn Rhodfa Lawrenny

266. Bydd y cynnydd arfaethedig mewn capasiti i 180 lle o'r 90 lle presennol ar safle Heol Cefn, yn cael ei ddarparu i ddechrau am gyfnod dros dro gyda 90 lle ychwanegol ar safle presennol Ysgol Uwchradd Fitzalan, o fis Medi 2023.

267. Mae'r cynigion i ddod i'r UCD ar safle'r ysgol bresennol o Rodfa Lawrenny yn cynnwys parcio staff yn y tu blaen. Y nifer disgwyliedig o gerbydau Trafnidiaeth i Ddysgwyr ar gyfer 90 o ddisgyblion UCD fyddai 30 o dacsis a fyddai angen cyfleusterau ar gyfer gollwng a chasglu o fewn y safle mewn cyfluniad addas.

268. Bydd angen ystyried ad-drefnu ac ailddyrannu mannau parcio a chylchrediad presennol cerbydau. Bydd angen ymgynghori â'r tîm trafnidiaeth, gan gynnwys Trafnidiaeth Ysgol, yn gynnar ar unrhyw gynigion sy'n effeithio ar fynediad, parcio ac ardaloedd cylchrediad.

Ehangu Ysgol Arbennig Greenhill yn weithredol dros ddwy safle

269. Cynigir cynyddu capasiti cyffredinol Ysgol Arbennig Greenhill o 64 lle i 96 lle o fis Medi 2026 ymlaen. Erbyn hynny, cynigir darparu ar gyfer 48 o ddisgyblion mewn adeilad newydd ar y safle presennol yn Heol Brynglas, Rhiwbeina, a 48 disgybl ar safle newydd yn Rhodfa Tŷ Glas, Llanisien,

270. Bydd y gwaith adeiladu newydd yn Rhodfa Tŷ Glas yn cael ei gwblhau yn gyntaf, ac ar gael i hyd at 48 o ddisgyblion o fis Medi 2025.

Cyfleuster newydd Ysgol Arbennig Greenhill yn Rhodfa Tŷ Glas, Llanishen

271. O safbwynt trafnidiaeth, byddai safle Tŷ Glas yn darparu lleoliad ardderchog ar gyfer Ysgol Greenhill o ystyried ei leoliad cymharol ganolog, agosrwydd at lwybrau a chyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus (bysiau a rheilffordd), a'r potensial ar gyfer cysylltiadau teithio llesol â chyfleusterau llwybrau beicio presennol ac wrth iddynt ddatblygu.

272. Byddai angen darparu man gollwng ar gyfer 16 o dacsis Trafnidiaeth i Ddysgwyr ar gyfer 48 o ddisgyblion.

273. Mae cyfran sylweddol o ddisgyblion presennol Greenhill yn byw yn ardaloedd Llanisien a Gabalfa (nad oes angen Trafnidiaeth i Ddysgwyr arnynt). Felly, mae potensial da i ddisgyblion yn ogystal â staff sy'n byw o fewn pellter beicio neu gerdded rhesymol deithio i'r safle drwy ddulliau llesol. Mae Ysgol Greenhill eisoes wedi datblygu ei Chynllun Teithio Llesol ei hun, ar y blaen i lawer o ysgolion prif ffrwd.

274. Cefnogir disgyblion Ysgol Greenhill gan fenter Hyfforddiant Teithio Annibynnol y Cyngor lle mae disgyblion ysgol yn cael eu cefnogi wrth gynllunio a gwneud teithiau i'r ysgol yn annibynnol. Byddai lleoliad y safle ger gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yn golygu y byddai disgyblion yn cael eu cefnogi'n dda gan y fenter hon.

275. Mae Ysgol Greenhill yn rhan o brosiect Fflyd Beiciau Ysgol Caerdydd lle mae fflydoedd beiciau pwrpasol yn cael eu gosod mewn ysgolion i ganiatáu i bawb gael mynediad at feicio. Mae Ysgol Greenhill wedi cael 16 beic safonol ar gyfer disgyblion a 2 feic oedolion, (yn ogystal â 5 sgwter). Defnyddir y beiciau ar gyfer hyfforddiant beicio ychwanegol i ddisgyblion a staff ond hefyd i wreiddio beicio yn niwylliant yr ysgol fel rhan o wersi ac amseroedd egwyl yn ogystal â'u defnyddio i feicio nôl a blaen i rai o'u gweithgareddau oddi ar y safle. Mae Ysgol Greenhill wedi croesawu'r prosiect yn frwdfrydig, gan annog eu disgyblion i feicio i'r ysgol ac i feicio fel rhan o’r cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol.

<u>Tŷ Derw, Llaneirwg - Adleoliad dros dro Ysgol Arbennig Greenhill ac Uned Cyfeirio Disgyblion parhaol dilynol (UCD)</u>

276. Er mwyn caniatáu codi adeiladau newydd ar safle presennol Heol Brynglas, gallai hyd at 42 o ddisgyblion Greenhill gael eu lletya mewn darpariaeth arbenigol newydd dros dro yn Nhŷ Derw, Llaneirwg ym mis Medi 2025.

277. Yn dilyn dychweliad disgyblion Greenhill i'w darpariaeth newydd ar safle Heol Brynglas ym mlwyddyn ysgol 2026/2027, cynigir bod Tŷ Derw yn dod yn lleoliad parhaol ar gyfer Uned Cyfeirio Disgyblion ar gyfer hyd at 42 o ddisgyblion. Byddai'r 42 dysgwr UCD yn trosglwyddo yma o'u llety dros dro yn yr Ysgol Uwchradd Fitzalan bresennol ar Rodfa Lawrenny.

278. Byddai angen darparu man gollwng ar gyfer hyd at 14 o dacsis i wasanaethu hyd at 42 o ddysgwyr.

279. Mae Tŷ Derw ytn rhesymol agos at lwybrau a chyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus, a rhywfaint o botensial ar gyfer cysylltiadau teithio llesol.

<u>Llety newydd ar gyfer Ysgol Arbennig Greenhill ar safle presennol Heol Brynglas</u>

280. Ar y safle presennol, mae'n debygol y bydd gostyngiad yn nifer y teithiau cerbyd a gynhyrchir gan yr ysgol oherwydd bod llai o ddisgyblion yn mynychu'r safle. Bydd angen Asesiad Trafnidiaeth fel rhan o'r broses gynllunio a disgwylir iddo nodi'r angen am waith cyffordd a phriffyrdd diwygiedig i wella mynediad presennol yr ysgol i / o Fryn Rhiwbeina/Heol-y-Deri i gerddwyr, beicwyr a cherbydau.

281. Byddai angen darparu man gollwng ar gyfer 16 o dacsis Trafnidiaeth i Ddysgwyr ar gyfer 48 o ddisgyblion.

282. Mae safle Heol Brynglas yn weddol agos at lwybr trafnidiaeth gyhoeddus, a pheth potensial cyfyngedig ar gyfer cysylltiadau teithio llesol.

<u>Ehangu Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) ar ran o'r safle sy'n cael ei feddiannu ar hyn o bryd gan Ysgol Uwchradd Willows</u>

283. Mae hwn yn gyfleuster UCD newydd a fydd yn darparu ar gyfer hyd at 48 o ddysgwyr ym mlwyddyn ysgol 2027/2028. Bydd y 48 dysgwr UCD yn trosglwyddo yma o'u llety dros dro yn yr Ysgol Uwchradd Fitzalan bresennol ar Rodfa Lawrenny.

284. Byddai angen darparu man gollwng ar gyfer 16 o dacsis Trafnidiaeth i Ddysgwyr ar gyfer 48 o ddysgwyr UCD.

285. Bydd gan y ddau ddefnydd addysgol newydd arfaethedig yma, o'r safle sy'n cael ei feddiannu ar hyn o bryd gan Ysgol Uwchradd Willows, gyfanswm cyfunol o 96 o ddysgwyr o fis Medi 2027. Bydd y rhan fwyaf o'r rhain angen trafnidiaeth ysgol.

286. Rhagwelir cyfanswm cerbydau i wasanaethu'r safle hwn o tua 32 o dacsis trafnidiaeth i ddysgwyr ac 16 o leoedd parcio posibl i staff. Felly, rhagwelir y bydd effaith hyn ar y rhwydwaith priffyrdd lleol yn is na'r defnydd presennol o'r safle a gellir ei leihau os bydd amseriadau cyfleusterau'r ysgol yn cael eu darwahanu.

287. Mae mewn sefyllfa drafnidiaeth dda o ystyried ei lleoliad cymharol ganolog, ei hagosrwydd rhesymol at lwybrau a chyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus, a'r potensial ar gyfer cysylltiadau teithio llesol.

<u>Sefydlu Canolfannau Adnoddau Arbenigol</u>

288. Bydd angen ystyried ad-drefnu ac ailddyrannu mannau parcio a chylchrediad cerbydau presennol ar gyfer darparu ardaloedd gollwng Trafnidiaeth Dysgwyr. Bydd angen ymgynghori â'r tîm trafnidiaeth, gan gynnwys Trafnidiaeth Ysgol, yn gynnar ar unrhyw gynigion sy'n effeithio ar fynediad, parcio ac ardaloedd cylchrediad.

289. Bwriedir sefydlu'r holl Ganolfannau Adnoddau Arbenigol canlynol o fis Medi 2024 o fewn adeiladau presennol yr ysgolion.

<u>Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr</u>

290. Cynigir y byddai'r ganolfan 20 lle yn cael ei darparu ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Iechyd Emosiynol a Lles.

291. Rhagwelir y byddai angen ardal gollwng a chasglu ar gyfer trafnidiaeth ysgol ar gyfer 7 tacsi. Mae'r lle gofynnol ar gael ar y safle drwy ad-drefnu’r cyfleusterau presennol.

<u>Cynigion safle ysgol gynradd ar gyfer Canolfannau Adnoddau Arbenigol ar gyfer Iechyd Emosiynol a Lles</u>

<u>Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 8 lle yn Ysgol Gynradd Baden Powell</u>

292. Rhagwelir y byddai angen ardal gollwng a chasglu ar gyfer trafnidiaeth ysgol ar gyfer 3 thacsi. Nid oes lle ar gael ar y safle ac mae angen astudiaeth dichonoldeb pellach. Mae'r posibilrwydd o ddefnyddio maes parcio pwll nofio Yr Hyb gyferbyn gyda staff i hebrwng disgyblion yn cael ei ystyried.

Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 8 lle yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed

293. Rhagwelir y byddai angen ardal gollwng a chasglu ar gyfer trafnidiaeth ysgol ar gyfer 3 thacsi. Mae'r lle gofynnol ar gael ar y safle drwy ad-drefnu'r cyfleusterau presennol.

Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 16 lle yn Ysgol Gynradd Herbert Thompson

294. Rhagwelir y byddai angen ardal gollwng a chasglu ar gyfer trafnidiaeth ysgol i 6 tacsi. Mae'r lle gofynnol ar gael ar y safle drwy ad-drefnu'r cyfleusterau presennol.

Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 16 lle yn Ysgol Gynradd Lakeside

295. Rhagwelir y byddai angen ardal gollwng a chasglu ar gyfer trafnidiaeth ysgol i 6 tacsi. Mae'r lle gofynnol ar gael ar y safle drwy ad-drefnu'r cyfleusterau presennol.

Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 8 lle yn Ysgol Gynradd Springwood

296. Rhagwelir y byddai angen ardal gollwng a chasglu ar gyfer trafnidiaeth ysgol ar gyfer 3 thacsi. Mae'r lle gofynnol ar gael ar y safle drwy ad-drefnu'r cyfleusterau presennol.

Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 8 lle yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch

297. Rhagwelir y byddai angen ardal gollwng a chasglu ar gyfer trafnidiaeth ysgol ar gyfer 3 thacsi. Mae'r lle gofynnol ar gael ar y safle drwy ad-drefnu'r cyfleusterau presennol.

Cynigion safle Ysgol Gynradd ar gyfer Canolfannau Adnoddau Arbenigol ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth

298. Y bwriad yw sefydlu Canolfannau Adnoddau Arbenigol 20 lle ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth ym mhob un o'r 3 safle ysgol gynradd canlynol. Mae'r rhain i gyd yn cael eu cynnig o fewn eu hadeiladau ysgol presennol o fis Medi 2024.

Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 20 lle ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Coed Glas

299. Rhagwelir y byddai angen ardal gollwng a chasglu ar gyfer trafnidiaeth ysgol ar gyfer 7 tacsi. Mae'r lle gofynnol ar gael ar y safle drwy ad-drefnu'r cyfleusterau presennol.

Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 20 lle ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Greenway

300. Rhagwelir y byddai angen ardal gollwng a chasglu ar gyfer trafnidiaeth ysgol ar gyfer 7 tacsi. Mae'r lle gofynnol ar gael ar y safle drwy ad-drefnu'r cyfleusterau presennol.

301. Mae tagfeydd wrth y mynediad presennol i gerbydau felly byddai angen gwella hyn.

Sefydlu Canolfan Adnoddau Arbenigol 20 lle ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Severn a throsglwyddo'r Tîm Addysgu Cymunedol i hen Ganolfan Addysg Oedolion Severn o fis Medi 2023

302. Rhagwelir y byddai angen ardal gollwng a chasglu ar gyfer trafnidiaeth ysgol ar gyfer 7 tacsi ar gyfer y Ganolfan Adnoddau Arbenigol. Nid oes lle ar gael ar y safle ac mae angen astudiaeth dichonoldeb pellach.

303. Mae'r safle wedi'i leoli'n ganolog gyda chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus da.

**Asesiadau o Effaith**

304. Mae'r Asesiad o'r Effaith Sengl ar Gydraddoldeb cychwynnol wedi'i wneud ac wedi ei atodi fel Atodiad 7. Mae hyn yn cynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg. Byddai barn rhanddeiliaid yn cael ei cheisio fel rhan o'r ymgynghoriad a byddai'r asesiad yn cael ei adolygu fel rhan o'r dadansoddiad ôl-ymgynghori.

305. Byddai'r Cyngor hefyd yn gofyn am farn cymunedau'r ysgol a'r gymuned ehangach er mwyn llywio Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, cyn ac yn ystod y cyfnod ymgynghori.

**ARGYMHELLION**

Argymhellir bod y Cabinet yn:

1. Awdurdodi swyddogion i:

    a) Ymgynghori ar y cynigion i gynyddu nifer y lleoedd i ddysgwyr ag Anghenion Iechyd Emosiynol a Lles a nifer y lleoedd ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Cymhleth / Cyflwr Sbectrwm Awtistiaeth .

    b) Bwrw ymlaen, o flaen y rhaglen dreigl Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, gyda dyluniad a chaffael safleoedd Tŷ Glas a Thŷ'r Dderwen, a'r llety dros dro ar safle waith yr Ysgol Uwchradd Fitzalan bresennol drwy'r Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion.

2. Nodi:

   a) Y cynnydd yn y ddarpariaeth Uned Cyfeirio Disgyblion ac ehangu'r ystod oedran i gynnwys disgyblion Cyfnod Allweddol 3.

   b) Ehangu'r ddarpariaeth Addysgu Cymunedol a throsglwyddo'r gwasanaeth i hen Ganolfan Addysg Oedolion Severn.

   c) Adleoli Ysgol Gynradd Lansdowne dros dro i safle presennol Ysgol Uwchradd Fitzalan.

   d) Y bydd swyddogion yn dod ag adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad i gyfarfod yn y dyfodol i geisio awdurdod i fwrw ymlaen i gyhoeddi cynigion yn unol ag adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

3. Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd gaffael buddiannau rhydd-ddaliadol ar gyfer tir ger safle presennol Ysgol Arbennig Greenhill, yn unol â phrisiad annibynnol, er mwyn caniatáu cyflawni’r Ysgol Arbennig Greenhill newydd, yn amodol ar gymeradwyaeth Weinidogol ar gyfer cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru.

| | |
|---|---|
| **UWCH SWYDDOG CYFRIFOL** | **Melanie Godfrey**<br>Cyfarwyddwr Addysg A Dygsu Gydol Oes |
| | **13 Gorffennaf 2023** |

*Mae’r atodiadau canlynol ynghlwm:*

**Atodiad 1:** Map o’r ddarpariaeth ysgolion arbennig a’r canolfannau adnoddau arbenigol presennol
**Atodiad 2:** Niferoedd diweddar ac wedi'i rhagamcanu o leoedd iechyd emosiynol a lles arbenigol
**Atodiad 3:** Tablau crynhoi o leoedd arbenigol iechyd emosiynol a lles ac anghenion dysgu cymhleth
**Atodiad 4:** Map o’r ddarpariaeth ysgolion arbennig a’r canolfannau adnoddau arbenigol presennol ac arfaethedig
**Atodiad Cyfrinachol 5:** Crynodeb Modelu Ariannol – costau lleoliadau
**Atodiad Cyfrinachol 6:** Crynodeb Modelu Ariannol – costau trafnidiaeth
**Atodiad 7:** Asesiad Effaith Sengl

*Rhoddwyd ystyriaeth i’r papurau cefndir canlynol:*

Cynigion Trefniadaeth Ysgolion: Darpariaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (15 Gorffennaf 2021) Agenda ar gyfer y Cabinet Ddydd Iau, 15 Gorffennaf, 2021, 2.00 pm : Cyngor Caerdydd (moderngov.co.uk)

Cynigion Trefniadaeth Ysgolion: Darpariaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (14 Hydref 2021) Agenda ar gyfer y Cabinet Ddydd Iau, 14 Hydref, 2021, 2.00 pm : Cyngor Caerdydd (moderngov.co.uk)